Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD GWENER, 13EG TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Sera Jane Whitley

serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 6/11/2026)

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Gary Pritchard	Cyngor Sir Ynys Môn
Nia Jeffreys	Cyngor Gwynedd
Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Hugh Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Dave Hughes	Cyngor Sir y Fflint
Mark Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Yr Athro Edmund Burke	Prifysgol Bangor
Yr Athro Joe Yates	Prifysgol Wrecsam
Nick Tyson	Coleg Cambria
Aled Jones-Griffith	Grŵp Llandrillo Menai
David Roberts	Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Edgar Wyn Owen	Parc Cenedlaethol Eryri
Dave Penrith	Ymgynghorydd Anrweithredol

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Gibabrd	Cyngor Gwynedd
Rhun ap Gareth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Helen White	Cyngor Sir Ddinbych
Neal Cockerton	Cyngor Sir y Fflint
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr y CBC
Mark Watkin	Swyddog Monitro
Helen Edwards	Dirprwy Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
Hedd Vaughan-Evans	Pennaeth Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2026 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 2 17 - 48

Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio i gyflwyno'r adroddiad.

6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - CAIS I YMESTYN CYFNOD DILYSRWYDD ACHOSION BUSNES AMLINELLOL 49 - 52

Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio i gyflwyno'r adroddiad.

7. Y GRONFA TWF LLEOL YNG NGOGLEDD CYMRU - BLAENORIAETHAU CYCHWYNNOL A'R CAMAU NESAF 53 - 67

Alwen Williams, Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru, ac Iain Taylor, Rheolwr Rhaglen, Uchelgais Gogledd Cymru i gyflwyno'r adroddiad.

8. DATGANIAD O DDIDDORDEB EFFAITH UCHEL - PROSIECT DINAS UTOPIA 68 - 70

Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio i gyflwyno'r adroddiad.

Mae Atodiad 1 yn eithriedig yn unol â Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol a busnes sefydliadau adnabyddadwy, gan gynnwys gwybodaeth ariannol fanwl am brosiectau, gofynion cyllido a rhagdybiaethau, trefniadau masnachol a chyflawni, risgiau prosiectau, gofynion buddsoddi yn y dyfodol a gwybodaeth fasnachol sensitif arall a ddarperir at ddibenion arfarnu a chyllido.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD
02/10/2026

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd)

Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), R Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Chris Cater (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint).

Aelodau Cyfetholedig: Paul Spencer (Prifysgol Bangor), David Roberts (Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau), Ifor Glyn Lloyd (Parc Cenedlaethol Eryri), Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) a Dave Penrith (Ymgynghorydd Anweithredol),

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol: Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Jenny Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Helen White (Cyngor Sir Ddinbych) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr), Hedd Vaughan-Evans (Cyfarwyddwr Portffolio), Mark Watkins (Swyddog Monitro), Helen Edwards (Dirprwyo Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd), Elliw Alaw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Catherine Morris-Roberts (Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol), Iain Taylor (Amion Consulting), Angharad Williams (Swyddog Cefnogi Rhaglen) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Sylwedyddion: Wendy Boddington a Bryn Richards (Llywodraeth Cymru)

Eraill a wahoddwyd:

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Gary Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer 2026/27.

Croesawyd y Cynghorydd Hugh Evans i'w gyfarfod cyntaf o'r Is-bwyllgor, gan nodi ei fod wedi bod yn aelod allweddol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn y gorffennol.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda'r Cynghorydd R Medwyn Hughes yn dirprwyo
- Y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda'r Cynghorydd Chris Cater yn dirprwyo
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria)
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Jenny Williams yn dirprwyo
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo

- Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid)

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gary Pritchard ar gyfer Eitem 8, yn rhinwedd ei rôl fel Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn. Nodwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a ni fu iddo adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2026 fel rhai cywir.

6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 1

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio.

PENDERFYNIAD

Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yn hwyrach na'r arfer oherwydd amserlen cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan gadarnhau bydd adroddiad perfformiad ar chwarter 2 yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor hwn.

Amlygwyd rhai o uchafbwyntiau diweddar megis:

- Bod gwaith adeiladu wedi dechrau ar brosiect Egni, ar safle M-SParc ym mis Mehefin.
- Bod Gwedd 1 o waith safle ym Mharc Bryn Cegin wedi cychwyn ym mis Mai.
- Bod Gwedd 1 o brosiect Cydnerth wedi cael ei gwblhau
- Bod Cytundeb Cyllid Grant ar gyfer Gwedd 1 y gwaith dymchwel, adfer a diogelu safle Cyn-ysbyty Gogledd Cymru wedi cael ei gyflawni, gyda'r gwaith wedi'i ddechrau ym mis Mehefin.

Llongyfarchwyd adeilad CanfodAU yn Wrecsam am gael ei enwi yn Brosiect Adeiladu'r Flwyddyn dros £5miliwn yng Ngwobrau Adeiladu Constructing Excellence in Wales 2026.

Nodwyd bod perfformiad o fewn Chwarter 1 wedi bod yn arafach na'r hyn a ragwelwyd gan ymhelaethu bod yr oedi ar brosiectau yn deillio o'r angen i lynu at reolau cyn-etholiadol Etholiad Senedd Cymru 2026 yn ogystal â sicrhau bod cytundebau cyfreithiol yn cael eu datblygu'n gywir. Er hyn, pwysleisiwyd bod nifer uchel o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ac ar y ffordd i fod yn weithredol. Ymhelaethwyd bydd yr adroddiad perfformiad ar Chwarter 2 yn amlygu bod nifer o brosiectau wedi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn.

Amlygwyd nad oes diweddariad ar niferoedd swyddi a buddiannau wedi cael ei gynnwys o fewn yr adroddiad hwn gan ei fod yn cael ei gyflwyno o fewn diweddariadau o fewn chwarter 2 a chwarter 4.

Cyfeiriwyd at y Gofrestr Risg gan nodi risgiau ar gyfer capasiti a chaniatâd cynllunio a chyfreithiol wedi lleihau, gan fod y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi penodi swyddogion i ymgymryd â rôl chynllunio er mwyn gallu gweithio i sicrhau bod polisïau cynllunio yn cael eu glynu atynt.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad ar lwyddiant y prosiect Hydrogen yn ystod Eisteddfod yr Urdd eleni, cadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net bod y prosiect wedi darparu oddeutu 60% o holl egni a ddefnyddiwyd yn yr Eisteddfod. Nodwyd ei fod yn gyfle da i rannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r prosiect. Eglurwyd bod pobl wedi cael y cyfle i yfed y dŵr sydd ynghlwm a'r prosiect er mwyn amlygu faint o lân yw allyriadau'r prosiect. Cadarnhawyd bod Prif Weinidog Cymru, wedi ymweld â'r prosiect, yn ei gapasiti fel yr Aelod Lleol i'r Eisteddfod. Adroddwyd bod crynodeb o lwyddiannau'r prosiect wedi cael ei ddatblygu, a bod modd ei rannu gyda'r Aelodau os ydynt yn dymuno.

Diolchwyd am yr adroddiad.

7. SEFYLLFA REFENIW A CHYFALAF 2026/27 – ADOLYGIAD DIWEDD GORFFENNAF 2026

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol

PENDERFYNIAD

Nodi'r adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Cynllun Twf, gan gynnwys y sefyllfa cronfeydd wrth gefn.

Nodi proffil gwarant cyfalaf diwygiedig y Cynllun Twf

Nodi'r adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Parth Buddsoddi, gan gynnwys y defnydd o'r llog ar falansau'r Parth Buddsoddi i adael sefyllfa niwtral ar gyfer 2026;/27.

Nodi'r adolygiad refeniw diwedd Gorffennaf 2026 ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Nodi trosglwyddiadau yng nghyllidebau'r Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi fel y nodir yng Nghyllideb Refeniw'r Cynllun Twf 2026/27.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I nodi tanwariant a ragwelir o £288,174 yn erbyn cyllideb y Cynllun Twf ar gyfer 2026/27.

I nodi llithriad ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £51.26m yn 2026/27 o'i gymharu â chyllideb a gymeradwywyd o £67.07m ar gyfer y flwyddyn.

I nodi sefyllfa alldro niwtral ar gyfer y Parth Buddsoddi ar gyfer 2026/27, gyda llog ar falansau'r Parth Buddsoddi o £227,589 yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwahaniaeth rhwng y gwariant a ragwelir a £200,000 a ddyrannwyd i'r CBC I gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. Mae'r defnydd o log yn drefniant dros dro gan y bydd llog i'w dderbyn ar falansau yn gostwng wrth i all-lif arian parod grant y Parth Buddsoddi gynyddu.

I nodi sefyllfa alldro niwtral ar gyfer yr PSRh ar gyfer 2026/27.

I nodi'r trosglwyddiadau i gyllidebau'r Cynllun Twf a'r Parth Buddsoddi y bydd angen eu cymeradwyo gan y CBC yn unol â'I Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar ragamcanion o sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf y Cynllun Twf, y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2026/27. Ymhelaethwyd ei fod wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 25 Medi, a'i fod wedi ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor hwn er mwyn nodi'r sefyllfa ariannol debygol ar gyfer y flwyddyn.

Tywyswyd yr aelodau drwy ragamcan o sefyllfa alldro refeniw'r Cynllun Twf gan nodi y rhagwelir tanwariant o £288,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Nodwyd bod hyn yn deillio o nifer o resymau megis; tanwariant mewn gwariant gweithwyr, rolau ychwanegol y llywodraeth, gwasanaethau cefnogol y corff atebol a chefnogaeth gyfreithiol, cyllid a chaffael allanol ar y prosiectau. Cadarnhawyd byddai'r cyfraniadau grant a ddefnyddir o'r Cynllun Twf, neu'r cyfraniadau o gronfa yn cael eu haddasu os yw'r tanwariant yn parhau hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn a sicrhau bod ffynonellau incwm ar gael i ariannu cyllidebau yn y dyfodol a lleihau unrhyw gynnydd mewn cyfraniadau partneriaid. Atgoffwyd bod cyfraniadau partneriaid yn cyfateb i thua 25% o'r gyllideb, gan nodi mai dyma'r unig ffynhonnell ariannu barhaol, gydag unrhyw arian ychwanegol yn arian dros dro yn unig.

Adroddwyd ar falans cronfeydd y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026 yn ogystal ag amcanion o'u balansau ar 31 Mawrth 2027. Manylwyd bod y Gronfa Llog o £5miliwn wedi'i neilltuo i ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd i ddod, wrth i'r gwariant ar y cynlluniau cyfalaf gymryd lle cyn derbyn arian grant gan y Llywodraeth. Nodwyd hefyd bod y Gronfa Adnodda wedi'i neilltuo i ariannu gofynion y Llywodraeth, costau datblygu prosiectau a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Rhannwyd proffil cyfalaf diwygiedig y Cynllun Twf gan nodi y rhagwelir gwariant o £51.26miliwn ar gyfer y flwyddyn 2026/27. Eglurwyd bod hyn yn £15.81miliwn yn llai na'r proffil yn y gyllideb a gymeradwywyd ym mis Ionawr, yn dilyn llithriad ar brosiectau.

Tynnwyd sylw bod rhagamcan o wariant ac incwm y Parth Buddsoddi a rhagamcan o sefyllfa ariannol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn awgrymu bydd sefyllfa niwtral ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Dangoswyd trosglwyddiadau cyllideb mae'r gwasanaethau eu hangen er mwyn gweithredu yn unol â'r cynllun trosglwyddiadau Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad pam bod tanwariant i'w weld ar gymorth cyfreithiol tra bod oedi yn digwydd ar brosiectau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Portffolio nad yw'r oediadau yn deillio o ddiffyg capasiti, ond o'r ffaith bod y cytundebau angenrheidiol yn gymhleth iawn ac o'r herwydd yn cymryd amser i'w cymeradwyo gan noddwyr y prosiectau. Ystyriwyd bod posibilrwydd bydd gorwariant i'w weld ar gymorth cyfreithiol erbyn diwedd y flwyddyn gan fod swmp y gwaith yn cynyddu'n gyflym.

Diolchwyd am yr adroddiad.

8. PROSIECT PORTH Y PORTHLADD RHYDD, LLANGEFNI - CYTUNDEB CYLLIDO GRANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

PENDERFYNIAD

Nodi bod yr holl gamau oedd yn weddill ar adeg cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes bellach wedi'u cwblhau neu wedi'u hymgorffori yn y cytundeb ariannu, ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gymryd pob cam gweithredol i ymrwymo i'r Cytundeb Cyllido Grant gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ni ellid cwblhau'r awdurdod penderfynu dirprwyedig a ddarparwyd yn flaenorol gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd I'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog S151 a'r Swyddog Monitro o fewn y cyfnod dynodedig oherwydd bod swydd yr Is-gadeirydd yn wag. Felly, ceisir cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd I fwrw ymlaen ac ymrwymo i'r cytundeb ariannu.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod yr Is-bwyllgor hwn wedi caniatáu estyniad ar y prosiect hwn er mwyn cwblhau trafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol. Ymhelaethwyd nad oedd modd cyflawni'r trafodaethau hyn yn amserol, yn dilyn ymddiswyddiad Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, sef Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor hwn.

Eglurwyd nad oedd modd dod i benderfyniad ar y trafodaethau gan fod angen caniatâd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor arno.

Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn gofyn i'r cydbwyllgor am amser ychwanegol i gwblhau trafodaethau, gan fod olynydd wedi cael ei benodi.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynnwyd i unrhyw oediad pellach ar y prosiect hwn gael ei adrodd i'r Is-bwyllgor hwn cyn gynted a bod modd. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Portffolio y byddai hyn yn digwydd, ond nid oes unrhyw ddisgwyliad bydd oediad ar y prosiect hwn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

9. CYNLLUNIAU DEFNYDDIO PROSIECT LPWAN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Ddigidol.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd rhyddhau'r cyllid ar gyfer y Cynlluniau Defnyddio amlinellir yn adran 4.10 o'r adroddiad mewn perthynas â phrosiect LPWAN ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gymryd y camau gweithredu angenrheidiol i fynd mewn i Gytundebau Cyllido Grant gyda'r awdurdodau lleol perthnasol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Cynlluniau Defnyddio mewn perthynas â phrosiect LPWAN. Ni all yr awdurdod dirprwyedig blaenorol i'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad a'r Aelod Arweiniol a'r Rhaglen Ddigidol gael ei gwblhau oherwydd swydd wag yr Aelod Arweiniol.

TRAFODAETH

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd i'r partneriaid a'r Awdurdodau Lleol am y cydweithio clos dros gyfnod y prosiect hwn hyd yma, gan amlygu amrywiaeth o dechnolegau arloesol dros sawl maes gwasanaeth. Hyderwyd bydd modd lledaenu'r technolegau sydd wedi ei ddatblygu, yn ehangach dros y flwyddyn nesaf.

Amlygwyd bod nifer o'r Awdurdodau Lleol wedi dyfeisio nifer o apiau fel rhan o'r prosiect hwn. Nodwyd bod mynd i'r afael â risg o lifogydd yn bwnc cyffredin ar draws yr Awdurdodau. Mewn ymateb i'r sylwadau, ymhelaethodd Rheolwr y Rhaglen Ddigidol bod Cyngor Gwynedd wedi ennill gwobr am ddefnydd o LoraWAN o fewn y maes hwn. Adroddwyd bod y dull maent yn ei ddefnyddio yn fwy cost effeithiol i'r awdurdodau. Cadarnhawyd bod y dechnoleg hon yn symleiddio'r broses o dracio sefyllfa llifogydd a galluogi awdurdodau i ragweld yn fwy effeithiol pryd a ble bydd llifogydd yn debygol o ddigwydd. Adroddwyd y gobeithiwyd bydd modd lledaenu'r defnydd hwn o dechnoleg yn ehangach ar draws y rhanbarth.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut all LoraWAN gael ei gysylltu gyda system Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ehangu'r ddarpariaeth, eglurodd Rheolwr y Rhaglen Ddigidol y gobeithiai bydd modd gwneud hyn yn y dyfodol. Manylwyd bod trafodaethau cychwynnol wedi cychwyn rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

10. RHAGLEN MABWYSIADU YNNI ADNEWYDDADWY YN Y CARTREF (HARP)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo datblygiad y Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref (HARP) ar gyfer Gogledd Cymru.

Awdurdodi Uchelgais Gogledd Cymru i arwain ar y gweithgaredd caffael i benodi darparwr ar ran yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio i wneud unrhyw gamau gweithredol i gwblhau'r gweithgaredd.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen am benderfyniad i symud ymlaen gyda'r Rhaglen Mabwysiadu Ynni Adnewyddadwy yn y Cartref er mwyn caniatáu i Uchelgais Gogledd Cymru gaffael cyflenwr ar gyfer y rhaglen ac ar gyfer cyflawni'r rhaglen yng ngogledd Cymru.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod y prosiect hwn yn seiliedig ar waith sydd wedi cael ei gyflawni gan ranbarth Caerdydd Canolog ers 2 flynedd, a bellach yn cael ei gefnogi'n ehangach gan Lywodraeth Cymru.

Adroddwyd mai nod y Rhaglen yw darparu cydymffurfiaeth ranbarthol wrth ddefnyddio egni adnewyddadwy mewn cartrefi. Nodwyd y bydd yn seiliedig ar gynlluniau egni lleol a chyfrannu i dargedau dad-garboneiddio cenedlaethol. Nodwyd bod yr holl Awdurdodau Lleol y rhanbarth wedi datgan eu diddordeb o ymuno gyda'r cynllun, drwy arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth gan nodi bydd y rhain yn cael eu cadarnhau drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn y dyfodol cyn y broses caffael.

Eglurwyd bod swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth i gychwyn ar brosesau caffael gyda'r holl Awdurdodau Lleol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cadarnhawyd bod y Bwrdd Carbon Isel wedi trafod y prosiect hwn yn helaeth yn ei gyfarfod diweddar. Nodwyd bod pryder am y gofyn i fod yn gyfrifol am brosiect ychwanegol ar ran y Llywodraeth heb adnodd ariannol i gefnogi rhediad Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Cyfarwyddwr Portffolio bod y Llywodraeth yn darparu cyllideb ar gyfer gwaith egni rhanbarthol a bod rhan o'r arian hwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r prosiect hwn. Hyderwyd bod modd cyflawni gwaith y prosiect o fewn cyllidebau presennol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynorthwyol Masnachol,

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26, gan nodi ei fod eisoes wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gofyn cyflwyno Adroddiad Blynyddol er ystyriaeth yr Is-bwyllgor.

TRAFODAETH

Adroddwyd ar rai o uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddiolch i'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd bod yr uchafbwyntiau yn amlygu cryfder y cydweithio rhwng y partneriaid, ac yn arwain at gyfleoedd economaidd gwych ar draws y rhanbarth. Manylwyd bod yr uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam
- Cynlluniau Sgiliau Bargen Twf Gogledd Cymru

- Cynllun Cyflawni Sero Net
- Digwyddiad Gorwelion Gwyrdd
- Adroddiad Mewnwelediadau Ieuenctid
- Portal Sgiliau Gogledd Cymru
- Pecynnau Cymorth Sgiliau Digidol
- Gweithdai Cyflogadwyedd

Nodwyd yr edrychir ymlaen at barhau gyda momentwm cadarnhaol y bartneriaeth dros y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Pwysleisiwyd pwysigrwydd y bartneriaeth er mwyn darparu'r sgiliau angenrheidiol i yrru'r rhanbarth yn ei flaen.

Diolchwyd am yr adroddiad.

12. Y GRONFA DWF LLEOL YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a Chynrychiolydd AMION Consulting.

PENDERFYNIAD

Nodi'r gofyniad gan Lywodraeth Cymru am Gynllun Twf Rhanbarthol 10 Mlynedd a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 i'w gyflwyno erbyn Ionawr 2027 - i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i ryddhau cyllid o fis Ebrill 2027.

Gofyn i bob sefydliad partner ymgynghori'n fewnol, nodi a chyflwyno erbyn 30 Hydref 2026 eu blaenoriaethau strategol yn unol â chanllawiau a fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol, gan weithio gyda swyddogion CBC a fydd yn cydlynu'r broses.

Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig fel y nodi yn adrannau 4.5 a 4.6 o'r adroddiad hwn a gofyn i'r Prif Weithredwr sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion o sefydliadau partner a Llywodraeth Cymru baratoi Cynllun Twf Rhanbarthol interim a cheisio cadarnhad y bydd y dull hwn yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

Nodi y bydd adroddiadau pellach ar y Cynllun Twf Rhanbarthol a Chynllun Cyflawnir Cronfa Twf Lleol ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 yn cael eu cyflwyno ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr i sicrhau mewnbwn a chyfarwyddyd gan yr Is-bwyllgor, ochr yn ochr â chanllawiau Llywodraeth Cymru, cyn cyflwyno cynnig terfynol i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2027.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae tua £80 miliwn o gyllid (tua £40 miliwn y flwyddyn) ar gael ar gyfer gogledd Cymru ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 y Gronfa Twf Lleol, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae angen y gwaith a amlinellir yn argymhelliad 2.1, 2.2 a 2.3 er mwyn sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ryddhau cyllid o fis Ebrill 2027 ymlaen.

TRAFODAETH

Eglurwyd mai diben yr adroddiad yw sicrhau bod y rhanbarth yn y lle gorau posib wrth fynd mewn i wedd nesaf y Gronfa Twf Lleol.

Adroddwyd bod oddeutu £80miliwn ar gael i'r rhanbarth dros y ddwy flynedd nesaf, ond mae mynediad at yr arian hwnnw yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cynllun Twf Rhanbarthol am gyfnod o 10 mlynedd a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf. Nodwyd yr angen i'r Cynllun Gyflawni fod wedi ei fabwysiadu erbyn Ionawr 2027 er mwyn derbyn sicrwydd bod y gyllideb yn cael ei ddyrannu i'r rhanbarth ym mis Ebrill.

Atgoffwyd bos Blwyddyn Ariannol 2026-27 yn flwyddyn pontio sydd yn defnyddio model SPF. Diweddarwyd bod disgwyl i gyllidebau'r dyfodol ddod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Nodwyd yr angen i ddelio gyda'r newidiadau hyn yn gryf, gyda thystiolaeth o gadernid rhanbarthol i fuddsoddiad y gyllideb. Adroddwyd bod disgwyliad i'r rhanbarth bod yn cyflawni gwaith cyffelyb i gydbwyllgorau corfforedig eraill yng Nghymru.

Eglurwyd bod y cynllun yn ffocysu ar gynhyrchiant, ac felly mae'r Cyd-bwyllgor yn awyddus i ddeall mwy am beth sydd yn ei yrru o fewn y rhanbarth er mwyn ei ddatblygu ymhellach. Anogwyd Awdurdodau Lleol i gynnal trafodaethau gyda'u haelodau a phartneriaid er mwyn canfod beth mae cynhyrchiant yn ei olygu i'r ardal, a'i fwydo i mewn i'r cynllun rhanbarthol.

Cyfeiriwyd at rai o themâu y dylid eu cyfarch er mwyn sicrhau cyllid megis; Ymchwil ac Arloesi a Chystadleurwydd Busnes, Sgiliau a Chyflogaeth, Isadeiledd Strategol - ynghyd a dyletswyddau cydraddoldeb, hinsawdd a llesiant. Yn yr un modd, nodwyd bod tair blaenoriaeth o fewn y gronfa sef:

- Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol
- Cynyddu Sgiliau a Chefnogi Pobl i Waith
- Gwella isadeiledd rhanbarthol

Adroddwyd bod 70% o gyllideb y gronfa yn gyllideb cyfalaf, gyda 30% yn gyllideb refeniw. Nodwyd hefyd bod cyllideb costau gweinyddol wedi ei gyfyngu ar 4% o ddyraniad blynyddol.

Cadarnhawyd nad yw'r Llywodraeth yn dymuno i arian y gronfa gael ei ddyrannu i'r Awdurdodau Lleol, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol ar gyfer cynlluniau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r flwyddyn bontio. Nodwyd y dymunir cynnal trafodaethau i bennu dull o ddyrannu arian fel bod y buddsoddiad a welir yn siroedd y rhanbarth, yn debyg i'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf, tra hefyd yn cadarnhau bod cyllidebau digonol yn cael ei ddarparu i'r holl brosiectau. Ystyriwyd yr angen i ddatblygu sgiliau ym mhob sir, tra hefyd yn cadw mewn cof bod y rhanbarth cyfan yn gallu elwa o ddatblygu rhai sgiliau ar un safle penodol.

Eglurwyd y gobeithir i drafodaethau gael eu cynnal gyda'r Awdurdodau Lleol ym mis Hydref eleni, er mwyn gallu datblygu dogfen sydd yn manylu beth fydd yn cael ei gynnwys o fewn y Cynllun Twf Rhanbarthol. Ymhelaethwyd y byddai'r sylfaen hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru wedi i'r rhanbarth ei gymeradwyo. Yn debyg, nodwyd bydd ffurf drafft o Gynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth ym mis Tachwedd, ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 o'r Gronfa, er mwyn cadarnhau cyllideb i'r rhanbarth. Cadarnhawyd bydd dogfennaeth derfynol yn cael eu cyflwyno i'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr, os yw'r Is-bwyllgor hwn yn penderfynu hynny yn dilyn trafodaethau pellach.

Cadarnhawyd byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried a phenderfynu ar gyllido'r Cynllun Cyflawni (blwyddyn 2 a 3) fel rhan o'r Cynllun Twf Rhanbarthol, yn ystod mis Ionawr 2027.

Sicrhawyd byddai'r gyllideb ar gael o fis Ebrill 2027, yn ddibynnol ar benderfyniad y Llywodraeth.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Ystyriwyd bod amserlenni tynn wedi cael eu gosod er mwyn cyfarch gofynion Llywodraeth Cymru, gyda swm sylweddol o arian i'r rhanbarth yn y fantol, os na fyddai'n cael eu cyfarch. Diolchwyd i'r swyddogion am eu cymorth i sicrhau llwyddiant y targedau dros y misoedd nesaf.

Mynegwyd pryder bod natur y Gronfa yn seiliedig ar ddyrannu arian yn rhanbarthol yn hytrach na drwy'r awdurdodau lleol yn unigol fel y cynlluniau blaenorol. Nodwyd yr angen i sicrhau bod pob awdurdod yn parhau i dderbyn ystyriaethau unigol gan fod eu hanghenion yn amrywiol o fewn y rhanbarth. Yn wahanol, derbyniwyd sylw yn nodi gall y ffaith bod y penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud yn rhanbarthol fod yn arbed amser a lleihau dyblygiad gwaith.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod ystyriaeth ofalus yn cael ei roi er mwyn sicrhau bod cyllideb deg yn cael ei ddyrannu i sicrhau cefnogaeth i ardaloedd a phrosiectau sydd eisoes yn gynhyrchiol, yn ogystal â chefnogi ardaloedd eraill y rhanbarth i fod yn fwy cynhyrchiol er mwyn cyrraedd targedau. Pwysleisiwyd nad oes penderfyniad ffurfiol wedi cael ei wneud ar y mater yma, gan ei fod yn ddibynnol ar drafodaethau'r awdurdodau lleol, a'r anghenion unigol sy'n amlygu eu hunain o fewn y Cynllun.

Ystyriwyd y pwysigrwydd i sicrhau bod colegau a phrifysgolion yn ganolog i drafodaethau lleol a rhanbarthol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

13. PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – CYMERADWYAETHAU PROSIECT A DYRANIADAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a Chynrychiolydd AMION Consulting.

PENDERFYNIAD

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £2.5m (cyfalaf a refeniw) i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer Rhaglen Grantiau SME ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Sir y Fflint.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £2.6m (cyfalaf a refeniw) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer Rhaglen Grantiau SME ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cymeradwyo'r cynnig gan Drafnidiaeth Cymru i fuddsoddi £10m o gronfeydd refeniw'r Parth Buddsoddi yn Sir y Fflint a £7m o gronfeydd refeniw'r Parth Buddsoddi yn Wrecsam i drawsnewid gwasanaethau bysiau i leoliadau cyflogaeth a sgiliau allweddol.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog

Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Sir y Fflint am £10m o Refeniw Parth Buddsoddi i gefnogi'r Prosiect Trawsnewid Bysiau.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am £7m o Refeniw Parth Buddsoddi i gefnogi'r Prosiect Trawsnewid Bysiau.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Thrafnidiaeth Cymru am £50,007 o Refeniw Parth Buddsoddi i gefnogi'r Prosiect Seilwaith Bysiau.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal a bod 31ten yn cwblhau'r Adolygiad Sicrwydd Achos Busnes, cymeradwyo'r dyraniad o £3.5m (cyfalaf) i Pochin Goodman Northern Gateway Limited i gefnogi prosiect seilwaith i ddatgloi tir datblygu tu mewn i Safle Treth Parth Buddsoddi Porth Glannau Dyfrdwy ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Pochin Goodman Northern Gateway Limited.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £0.5m (refeniw) i Wales and West Utilities i gefnogi'r gwaith cyn-ddatblygu i ddatgloi buddsoddiad yn y dyfodol yn y prosiect Hyline Gogledd ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda Wales and West Utilities Limited.

Yn amodol ar Asesiad Rheoli Cymhorthdal, cymeradwyo'r dyraniad o £0.25m (cyfalaf) i MAAS Spectrometry Limited i gefnogi prosiect Ymchwil a Datblygu, sy'n ffurfio rhan o Raglen Arloesi'r Parth Buddsoddi, i greu peiriant sbectrometreg màs newydd i ddangos sut mae technoleg newydd yn cael ei gymhwyso i gefnogi twf gweithgynhyrchu a chyfleoedd allforio ac awdurdodi'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i ymrwymo i Gytundeb Arian Grant gyda MAAS Spectrometry Limited.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer prosiectau canlynol:

- Rhaglen Grantiau SME yn Sir y Fflint,
- Rhaglen Grantiau SME yn Wrecsam,
- Rhaglen Trawsnewid Bysiau ar draws Sir y Fflint a Wrecsam
- Costau Datblygu Prosiect Trafnidiaeth Cymru,
- Prosiect Seilwaith Porth Glannau Dyfrdwy,
- HyLine Gogledd,
- MASS Spectrometry Limited

Mae'r cais am arian ar gyfer y Rhaglenni Grant SME ar lefel sy'n talu'r gwariant ym Mlwyddyn 2 (y flwyddyn ariannol gyfredol) a Blwyddyn 3. Mae'r dyraniadau eraill a restrir uchod wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol Blwyddyn 2 a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd £14.3m ym mis Mawrth 2026 ar gyfer costau ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae angen rhai addasiadau i ddyraniadau cyfalaf a refeniw Blwyddyn 2 i gefnogi'r dyraniadau hyn, ond mae pob un o fewn y goddefiannau ac wedi'u cytuno mewn egwyddor gyda Chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd y broses adolygu a chymeradwyo ADP Blwyddyn 3 yn codi unrhyw newidiadau.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod atodiadau'r adroddiad hwn yn eithriedig ar gyfer Aelodau yn unig yn sgil y wybodaeth fasnachol sensitif sydd wedi ei gynnwys ynddynt.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn darparu diweddariad ar Barth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, tra hefyd yn chwilio am gymeradwyaeth ar nifer o drefniadau gyda phartneriaid, sef:

- Rhaglen Grantiau SME yn Sir y Fflint
- Rhaglen Grantiau SME yn Wrecsam
- Rhaglen Trawsnewid Bysiau ar draws Sir y Fflint a Wrecsam
- Costau Datblygu Prosiect Trafnidiaeth Cymru
- Prosiect Seilwaith Porth Glannau Dyfrdwy
- HyLine Gogledd
- MASS Spectrometry Limited

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Diolchwyd am gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Awdurdodau Lleol perthnasol, gan ddiolch i swyddogion am gyfathrebu cyson drwy gydol y broses.

Diolchwyd am yr adroddiad.

14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigodd y Cadeirydd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Er bod diddordeb y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd, mae hyn yn cael ei orbwyso ar hyn o bryd gan yr angen i ddiogelu gwybodaeth fasnachol sensitif o ystyried y byddai datgelu yn debygol o ragfarnu trafodaethau parhaus a gallu'r awdurdod i sicrhau'r gwerth gorau a diogelu'r defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Pleidleisiwyd o blaid cau allan y wasg a'r cyhoedd.

15. STRATEGAETH AR GYFER GWEDDILL CYLLID Y CYNLLUN TWF SYDD HEB EI DDYRANNU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r strategaeth ddrafft ar gyfer y cronfeydd Cynllun Twf sydd heb eu dyrannu fel y nodir yn adran 5, Achos Fusnes Strategol y Gronfa Eiddo Fasnachol a'r Achos Fusnes Strategol ar gyfer y Gronfa Arloesi a Thwf a gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio gymryd y camau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno Achosion Busnes Terfynol i'w ystyried.

Cymeradwyo'r fframwaith penderfynu arfaethedig ar gyfer y cronfeydd arfaethedig fel nodir yn adran 6 o'r adroddiad a gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ymgorffori'r fframwaith yn yr achosion busnes terfynol cyn cael ei gyflwyno am ystyriaeth. Achos Amlinellol Strategol y Gronfa Arloesi a Thwf ac yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ymgymryd â'r holl gamau angenrheidiol i gyflwyno achos busnes terfynol i'w ystyried.

Cytuno i'r newidiadau i'r Rhestr wrth gefn fel amlinellir yn adran 5 o'r adroddiad a gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio ymgymryd â'r holl gamau gweithredol i weithredu'r newidiadau.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar gyfer y strategaeth ar gyfer cronfeydd y Cynllun Twf sydd heb eu dyrannu, gan gynnwys creu dwy gronfa newydd.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 11:05 .

_____

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

13eg o Dachwedd, 2026

TEITL:	Cynllun Twf Gogledd Cymru – Adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 2
AWDUR:	Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 2 (Gorffennaf i Medi) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod yr Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2
- Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2026

4.4. <u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2</u>

4.4.1. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.4.2. Yn ystod y chwarter gwelwyd cynnydd ar gyflawni ein prosiectau, gyda gwariant y Cynllun Twf yn cyrraedd £38m ac cyfanswm buddsoddiad yn £63m. Mae gwaith adeiladu yn gwneud cynnydd mawr ar draws safleoedd gan gynnwys Egni, Parc Bryn Cegin, Gogledd Môn ac Glynllifon.

4.4.3. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd achosion busnes ar gyfer tri prosiect. Roedd yn cynnwys achosion cyfiawnhad busnes ar gyfer y *Slate Explorer* sy'n rhan o brosiect Anturiaethau Cyfrifol, ac Spoke Dylan's fel partner newydd ar gyfer Academi Croeso, ynghyd a Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi.

4.4.4. Cwblhawyd yr Cytundebau Cyllido Grant ar gyfer tri prosiect yn cynnwys Egni, Ysgol Fusnes Albert Gubay ac Porthladd Mostyn.

4.4.5. Lansiodd cronfeydd grant Di-wifr Uwch ac 4G+, gyda datganiadau o ddiddordeb yn cael ei gwahodd ac asesu.

4.4.6. Cynhaliwyd adolygiad blwyddyn 1 ar y Gronfa Ynni Leol gan ystyried yr heriau a llwyddiannau cychwynnol er mwyn bwydo mewn i'r blaenoriaethau ar gyfer yr ail flwyddyn, gyda man newidiadau gweithredol wedi ei gweithredu o fewn cwmpas yr achos busnes cymeradwy.

4.4.7. Mae diweddariad Chwarter 2 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni y portffolio. Bellach nid oes prosiect yn adrodd yn goch, mae'r cyfan yn adrodd unai yn wyrdd neu ambr ar hyn o bryd.

4.5. <u>Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2026</u>

4.5.1. Mae Cofrestr Risg y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio a'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd (yn flaenorol y Bwrdd Uchelgais) yn chwarterol.

4.5.2. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gan y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda newidiadau wedi ei cofnodi yn y ddogfen gan gynnwys camau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru.

4.5.3. Nid oedd unrhyw newid i'r risgiau gweddillol y chwarter hwn.

4.5.4. Er bod y proffil risg wedi parhau'n sefydlog yn gyffredinol yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r proffil risg yn parhau yn uchel gyda tri o risgiau gweddilliol coch gan gynnwys fforddiadwyedd, buddsoddiad sector breifat, cynllunio a chaniatâd statudol, ac amcanion gwariant.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r proffil cyflawni a gwariant diwygiedig a gymeradwywyd gan yr Is-Bwyllgor wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol yn gyfyngedig. Mae adroddiadau chwarterol yn rhan o'r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt o dan Cynllun Twf Gogledd Cymru. Y penderfyniad a geisir yw nodi'r wybodaeth am berfformiad a risg a chymeradwyo ei chyflwyno ymlaen i Lywodraethau Cymru a'r DU a phwyllgorau craffu awdurdodau lleol; nid yw'n awdurdodi unrhyw wariant ychwanegol, cymeradwyo prosiect neu gamau sylweddol eraill.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2

Atodiad 2: Cofrestr Risg y Portffolio – Medi 2026

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r argymhellion yn gyson â'r fframwaith hwnnw ac yn dod o fewn rôl yr Is-bwyllgor wrth ystyried gwybodaeth am berfformiad a risg a chymeradwyo adrodd ymlaen i'r Llywodraeth a chyrff craffu.

Er nad oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol sy'n deillio o'r Adroddiad, dylai'r Is-bwyllgor, fodd bynnag, barhau i roi sylw i oblygiadau cyfreithiol a llywodraethu'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Portffolio. Dylai cymeradwyaethau prosiectau unigol, rheolaethau newid, trefniadau ariannu, materion caffael a materion rheoli cymhorthdal barhau i gael eu trin trwy'r prosesau sicrwydd a gwneud penderfyniadau perthnasol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod chwarter 2. Ni fydd gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd. Byddaf yn parhau i gefnogi’r Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol.”

Cynllun Twf Gogledd Cymru
Adroddiad Perfformiad Chwarterol

Chwarter 2 2026-27

(Gorffennaf - Medi 2026)

THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH.

Tud. 20



CYNNWYS

Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio	3
Uchafbwyntiau Chwarterol	4
Dashfwrdd Cyflawni Prosiect	5
Dashfwrdd Buddion	6
Rhaglen Cysylltedd Digidol	8
Rhaglen Ynni Carbon Isel	10
Rhaglen Tir ac Eiddo	13
Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	15
Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	17
Olrhain Cynnydd y Prosiectau, Prosiectau'r Cynllun Twf:	19
Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf	20
ATODIAD A - Crynodeb Prosiectau - Cynllun Twf	21

Tud. 21

CRYNODEB Y CYFARWYDDWR

Mae'r chwarter hwn wedi nodi carreg filltir arwyddocaol ar gyfer y Cynllun Twf gyda nifer sylweddol o brosiectau a gymeradwywyd yn flaenorol yn symud I gyflawni. Mae gennym un deg saith o brosiectau bellach yn cael eu cyflawni yn llawn neu rhannol. Cyrhaeddodd wariant y Cynllun Twf £38m, gyda chyfanswm y buddsoddiad yn cyrraedd £63m a rhagwelir y bydd yn cynyddu'n sylweddol dros y 2 flynedd nesaf wrth i brosiectau barhau i gyflawni trwy eu camau adeiladu. Mae ein ffigurau creu swyddi yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd gan fod y mwyafrif o swyddi yn cael eu creu ar ôl adeiladu pan fydd prosiectau'n symud i'w camau gweithredol.

Roedd rhai o'r cerrig milltir allweddol y chwarter hwn yn cynnwys y cytundebau cyllido a gwblhawyd ar gyfer prosiectau Egni, Ysgol Fusnes Albert Gubay a Phorthladd Mostyn.

Datblygodd y gwaith adeiladu ar draws amryw o safleoedd. Yn hen Ysbyty Gogledd Cymru, cwblhawyd gwaith diogelwch ar y safle a dechreuodd y gwaith cyweirio asbestos Cam 1. Ym Mharc Bryn Cegin, cwblhawyd gwaith caib a rhaw a gwaith codi strwythurau dur Cam 1, gyda'r gwaith cladio'r waliau a'r to ar y gweill. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mehefin ar Adeilad y Derfynfa Forol ac unedau busnes yn safle Afon Goch o fewn Safleoedd ac Eiddo Gogledd Môn. Yn Hwb Economi Wledig Glynllifon, bu modd i'r elfen Llaeth Defaid Cymru symud ymlaen i'r cam adeiladu nesaf yn sgil cwblhau'r gwaith caib a rhaw.

Gydag achosion busnes ychwanegol yn cael eu cymeradwyo, cryfhaodd hyn y biblinell prosiectau. Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi a'r Achosion Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Cartiau Gwyllt (Slate Explorer) y prosiect Antur Gyfrifol a Dylan's fel partner newydd ar gyfer yr Academi Croeso.

Bu cynnydd gyda gwaith cyflawni'r Cynlluniau Grant hefyd. Lansiwyd y cynlluniau Di-wifr Uwch a 4G+, aseswyd mynegiannau o ddiddordeb a gwahoddwyd ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau llawn yn Chwarter 3. Parhaodd prosiectau'r Gronfa Ynni Glân i symud ymlaen, yn ogystal a chynnal adolygiad blwyddyn gyntaf y Gronfa ym mis Gorffennaf, ystyriwyd yr heriau a'r llwyddiannau cychwynnol yn y flwyddyn gyntaf er mwyn llunio blaenoriaethau ar gyfer yr ail flwyddyn.

Gan edrych ymlaen, mae'r pwyslais yn dal ar gynnal cyflymder y cyflawni a gwireddu manteision buddsoddi ar draws y portffolio.



Hedd Vaughan-Evans

Cyfarwyddwr Portffolio
Uchelgais Gogledd Cymru

UCHAFBWYNTIAU



Cronfeydd Grant Digidol

Lansiwyd y cynlluniau Di-wifr Uwch a 4G+, aseswyd datganiadau o ddiddordeb a gwahoddwyd ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau llawn yn Chwarter 3



Cytundebau Cyllido Grant

Cwblhawyd y Cytundebau Cyllid Grant ar Egni, Ysgol Fusnes Albert Gubay a Phorthladd Mostyn.



Hwb Economi Wledig Glynllfion

Roedd cwblhau'r gwaith tir yn galluogi elfen Llaeth Defaid Cymru i symud ymlaen i'r cam adeiladu.



Parc Bryn Cegin

Cwblhawyd gwaith tir Cam 1 a chodi dur, gosod cladin waliau a tho ar y gweill



Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Cwblhawyd gwaith diogelwch y safle a dechreuwyd adfer asbestos Cam 1.



Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mehefin ar Adeilad y Derfynfa Forol ac unedau busnes ar safle Afon Goch ar y prosiect.

DASHFWRDD CYFLWYNO PROSIECTAU

	Prosiectau yn Cyflawni (cyllid wedi'i ymrwymo	Prosiectau sy'n cael eu cyflawni'n rhannol (cyllid wedi'i ymrwymo)	Wedi'i gymeradwyo ond heb ei gyflawni eto (cyllid wedi'i ymrwymo)	Datblygu achosion busnes (cyllid wedi'i glustnodi)	Yn cael ei adolygu (cyllid wedi'i glustnodi)	Rhestr Wrth Gefn a Cronfa chwyddiant (cyllid heb ei ddyrannu)
Nifer y Prosiectau	15	2	1	8	0	7
Dyraniad Cyllid y Cynllun Twf (£234.85*)	£113.92m	£18.76m	£3.48m	£66.73m	-	£31.96m**
Cyfanswm Buddsoddiad (targedau achos busnes cronnus)	£270.22m	£105.14m	£19.09m	£358.81m	-	£241.59m**
Swyddi (targedau achos busnes cronnus	1,604	176	223	1,391	-	406**

* Nid yw cyllid y Cynllun Twf a ddangosir yma yn cynnwys £5.15m wedi'i ddyrannu tuag at gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio
** Mae'r ffigurau'n cynrychioli cydbwysedd y targed sydd i'w gyflawni gan brosiectau'r Rhestr Wrth Gefn

DASHFWRDD AMCANION GWARIANT Y PORTFFOLIO

Creu Swyddi *

Targed erbyn 2036 **4,000**

Targed hyd at ddiwedd 2026/27 **202**

	Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26	Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27
Cyfanswm swyddi	121	134	
Swyddi newydd	63	64	
Swyddi Adeiladu	58	70	

Buddsoddiad

Targed erbyn 2036 **Cyfanswm Buddsoddiad £1bn**

	Rhagolwg hyd at ddiwedd 2026/27	Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26	Gwir gyflawnwyd Ch1 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch3 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27
£ Buddsoddiad y Cynllun Twf	£65m	£30,652,413	£32,311,012	£37,842,753		
£ Cyfanswm Buddsoddiad	£120m	£34,208,618	£37,129,800	£ 63,155,577		

**Mae data am swyddi yn cael ei gasglu bob 6 mis, gan adrodd ar ffigyrau ym mis Hydref (diwedd Ch2) a mis Ebrill (diwedd Ch4).

DASHFWRDD BUDDION

Buddion

Refeniw wedi'i Sicrhau
£7,233,476

Incwm cyfalaf wedi'i drosoli
£81,016

Unigolion yn cwblhau cyrsiau CPD
355

Ymgysylltu â Gweithlu'r Dyfodol
6,878 o gyfranogwyr

Unigolion wedi cofrestru am brentisiaethau
25

Myfyrwyr yn cwblhau cymwysterau
235

Caffael

£89,874,294.74
Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd (yn cynnwys TAW)

£77,076,853.76
Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd i gyflenwyr Gogledd Cymru (yn cynnwys TAW)

86%
o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr o ogledd Cymru

£72,872,823.47
Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd i fusnesau SME (yn cynnwys TAW)

81%
o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i fusnesau SME

DASHFWRDD BUDDION

Buddion

Unigolion wedi cofrestru am brentisiaethau **25**

Refeniw wedi'i Sicrhau **£7,233,476**

Incwm cyfalaf wedi'i drosoli **£81,016**

Ymgysylltu â Gweithlu'r Dyfodol **6,878** o gyfranogwyr

Unigolion yn cwblhau cyrsiau CPD **355**

Myfyrwyr yn cwblhau cymwysterau **235**

Caffael

£89,874,294.74

Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd (yn cynnwys TAW)

£77,076,853.76

Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd i gyflenwyr Gogledd Cymru (yn cynnwys TAW)

86%

o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr o ogledd Cymru

£72,872,823.47

Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd i fusnesau SME (yn cynnwys TAW)

81%

o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i fusnesau SME

PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod y Fforwm Telathrebu Rhanbarthol y chwarter hwn gan gynnwys cyflwyniadau i'r diwydiant telathrebu ar y Porthladd Rhydd a'r Parth Buddsoddi.
- Mae Cynlluniau Grant Di-wifr Uwch a 4G+ bellach wedi'u lansio gyda datganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn. Mae ceisiadau llawn bellach i fod i gael eu derbyn yn Ch3. Bydd y rownd nesaf o wahoddiadau i fynegi diddordeb ar gyfer y ddau gynllun yn cael ei baratoi yn Ch3 i'w lansio yn Ch4.



Ian Jones
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Cynigion cyllid (£1.5m) wedi'u cyflwyno i'r Engineering and Physical Sciences Research Council..	• Penderfyniad ar gyllid 3 blynedd o £1.5m gan EPSRC i'w gadarnhau		• Mae'r prosiect yn methu'r targed o ran sicrhau arian grant ychwanegol. • Mae cais mawr am gyllid allanol i sicrhau adnoddau ychwanegol am dair blynedd wedi'i gyflwyno • Ymgysylltu â busnes rhanbarthol wedi'i ohirio oherwydd problemau capasiti.
4G+ Uchelgais Gogledd Cymru	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Cynhaliwyd y pedwerydd cyfarfod fforwm telathrebu. • Lansiwyd cynlluniau grant Diwydiant a'r Sector Cyhoeddus 4G+ gyda Mynegiadau o Ddiddordeb wedi'u derbyn.	• Adolygu a chymeradwyo mynegiadau o ddiddordeb 4G + a gwahoddiad i gyflwyno cais llawn. • Paratoi ail rownd o fynegi diddordeb i'w hagor yn Ch4.		• Mae'r ddau gynllun grant wedi lansio gyda lefel gref o ddiddordeb gan y diwydiant gyda mynegiadau ffurfiol o ddiddordeb wedi'u derbyn i'w hadolygu cyn gwahoddiadau ffurfiol i gyflwyno ceisiadau llawn yn Ch3.
Di-wifr Uwch Uchelgais Gogledd Cymru	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Lansiwyd cynlluniau grant Technoleg Di-wifr Uwch gyda Mynegiadau o Ddiddordeb wedi'u derbyn.	• Adolygu a chymeradwyo datganiadau o ddiddordeb a gwahoddiad i gais llawn. • Paratoi ail rownd o fynegi diddordeb i'w agor yn Ch4		• Lansiwyd y cynlluniau grant gyda lefel gref o ddiddordeb yn y diwydiant gyda datganiadau diddordeb ffurfiol wedi'u derbyn i'w hadolygu cyn gwahoddiadau ffurfiol i gyflwyno ceisiadau llawn yn Ch3.
LPWAN Uchelgais Gogledd Cymru	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Adolygwyd cynlluniau defnyddio LoRaWAN terfynol a pharatowyd argymhellion.	• Cymeradwyo Cynlluniau Defnyddio a chyflawni i ddechrau.		• Mae argymhellion ar gyfer Cynlluniau Defnyddio i'w cymeradwyo wedi'u paratoi i'w hystyried gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn Ch3

PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- **Cydnerth** - Gwaith Gwedd 1 wedi'i gwblhau, dad-weithredu'r safle.
- **Cronfa Ynni Glân (Ynni Lleol Blaengar)** – Buddsoddiadau parhaus a wnaed o is-gronfeydd sector Preifat a Gwirfoddol.
- **Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd** – Penodi contractwr i ddarparu'r pecynnau gwaith gofynnol i lywio'r Achos Busnes Llawn, yn ogystal â chynhyrchu'r ddogfen Achos Busnes Llawn.
- **Egni** – Cytundeb cyllido grant wedi'i sefydlu a gwaith safle ar y gweill.
- **Hwb Hydrogen Caergybi** – Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol.



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Meghan Davies
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cydnerth (Morlais) Menter Môn	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Adroddiad allyriadau a bioamrywiaeth Blwyddyn 1 wedi'i dderbyn. • Parhau i ymgysylltu â'r datblygwyr a'r grid.	• Parhau i ymgysylltu â'r datblygwyr a'r grid.		Mae'r prosiect wedi symud i'r cyfnod cyflawni ac mae'n mynd rhagddo'n dda.
Egni Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Cytundeb Arian Grant wedi'i lofnodi. • Tystiolaeth amodau cynsail wedi'i dderbyn. • Gwaith yn mynd rhagddo'n dda gyda ffrâm ddur wedi'i chodi.	• Gwaith parhaus. • Hawliad cyntaf wedi'i gyflwyno.		Prosiect wedi symud i gyflawni a gwaith wedi dechrau ar y safle.
Cronfa Ynni Glan Uchelgais Gogledd Cymru	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Adolygiad 1 flwyddyn wedi'i gynnal gydag ymgynghorwyr y gronfa. • Parhau i gyflwyno Mynegiadau o Ddiddordeb ar draws pob un o'r 3 is-gronfa. • Parhau i gyhoeddi arian o is-gronfa wirfoddol a phreifat. • Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltu.	• Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltu. • Parhau â'r gwaith o asesu ceisiadau a dyfarnu. • Creu cronfa ddata cyflenwyr.		Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo a'r gronfa wedi'i lansio.
Hwb Hydrogen Caergybi Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol a chaniatawyd penderfyniad cynllunio.	• Menter Môn i barhau i ymgysylltu i ddenu defnyddwyr • Paratoi Achos Busnes Llawn.		Symudodd y statws RAG i ambr wrth i'r prosiect Achos Busnes Amlinellol gael ei gymeradwyo ac mae bellach yn gweithio tuag at Achos Busnes Llawn.
Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd Cyngor Gwynedd	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Penodwyd contractwr i ddarparu'r pecynnau gwaith gofynnol i hysbysu'r Achos Busnes Llawn, yn ogystal â chynhyrchu'r ddogfen Achos Busnes Llawn.	• Paratoi Achos Busnes Llawn. • Mynd i'r afael â materion sydd heb eu hystyried gan y Swyddfa Rheoli Portffolio gan gynnwys cytundebau cynllunio a phrydles tir.		Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod yr Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo ac mae yna 12 mis i gyflwyno'r Achos Busnes Llawn.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru** - Mae gwaith diogelwch y safle gan gynnwys ffensys a chamerâu teledu cylch cyfyng wedi'i gwblhau ac mae contractwr asbestos wedi dechrau gwaith adfer Cam 1.
- **Parc Bryn Cegin -** Mae gwaith tir a chodi dur wedi'u cwblhau ar Gam 1 ac mae cladin i waliau a tho ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r ddogfennaeth ar gyfer Cam 2 yn cael ei chwblhau gyda tharged o ganol mis Hydref a bydd gwaith galluogi safle yn dechrau ym mis Tachwedd.
- **Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn -** Dechreuodd OBR Construction ar y gwaith ar adeilad y Derfynnell Morol a safle Afon Goch ar gyfer yr unedau busnes ym mis Mehefin ac mae cynnydd da yn cael ei wneud.
- **Ysgol Fusnes Albert Gubay -** Cwblhawyd y Cytundeb Cyllid Grant ym mis Awst, dechreuodd Wynne Construction alluogi gwaith yn yr un mis gyda'r gwaith contract ar y gweill ym mis Medi.
- **Porthladd Mostyn -** Cwblhawyd y Cytundeb Cyllid Grant ym mis Medi ac mae'r Porthladd i gyflwyno eu cais cyntaf am waith a wnaed hyd at ddiwedd y mis.



David Fitzimon
Pwyllgor Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych	Cam 1 y Prosiect yn cael ei gyflawni	• Ffens perimedr ardal gwaith wedi'i gwblhau gyda chamerâu teledu cylch cyfyng wedi'u gosod. • Mae contractwr asbestos cymeradwy, UK Environmental wedi dechrau gwaith adfer Cam 1. • Mae arolygydd wedi cael cyfarwyddyd i gynnal arolygon ar gyfer adeiladau sy'n destun cais i ddymchwel am ganiatâd adeilad rhestredig.	• Cychwyn arolygon ar gyflwr yr adeiladau wedi'i gynnwys yn y cais Caniatâd Adeilad Rhestredig. • Gwaith dymchwel i ddechrau.		• Materion iechyd a diogelwch sylweddol ar y safle yn sgil cyflwr yr adeiladau a'r halogiad ar y safle. • Mater parhaus o dresmasu gan aelodau o'r cyhoedd. • Cais Adeilad Rhestredig presennol i ddymchwel y strwythurau sy'n weddill yn destun trafodaethau manwl gyda CADW.
Parc Bryn Cegin, Bangor Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru	Cam 1 y Prosiect yn cael ei gyflawni	• Gwaith tir a chodi dur ar gyfer Cam 1 wedi'i gwblhau. • Cytunwyd ar benawdau'r telerau ar gyfer Cam 2. • Derbyniwyd swm tendr Cam 2 ac mae'r ddogfennaeth derfynol yn cael ei pharatoi.	• Cwblhau gwaith cladin ar gyfer Cam 1 a gosod slabiau llawr a dechrau gwaith mewnol. • Cwblhau Gweithred Amrywio Cam 2 ar gyfer y Cytundeb Menter ar y Cyd rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. • Dechrau gwaith Cam 2.		• Prosiect yn gwneud cynnydd da ar y safle a dim materion i'w hadrodd.
Porth Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Arolygon ecolegol wedi'u cwblhau. • Penodwyd ymgynghorydd i ddatrys ffosffadau. • Trafodaethau yn parhau gyda thirfeddianwyr ar gyfer cydosod y safle. • Y tendr ar gyfer penodi partner datblygu wedi cau.	• Cynnydd parhaus ar gydosod.. • Penderfyniad ar y cais cynllunio amlinellol. • Cwblhau penodiad y partner datblygu. • Drafftio Achos Busnes llawn i ddechrau ym mis Hydref.		• Cydosod y safle, • Penodi partner datblygu. • Datrysiad ar gyfer gollyngiadau ffosffad i Afon Dyfrdwy.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn Sites Cyngor Sir Ynys Môn	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Dechreuodd y Prif Gontractwr ar waith ar Adeilad y Derfynfa Forol a safle Afon Goch ym mis Mehefin 2026. • Cytundeb Cyllid Grant wedi'i gwblhau.	• Cyflawni'r gwaith adeiladu yn barhaus.		• Prosiect yn gwneud cynnydd da ar y ddau safle.
Porth y Porthladd rhydd Cyngor Sir Ynys Môn	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Penodi Prif Gontractwr ar gyfer safle PEBOC. • Tendr ar gyfer penodi Prif Gontractwr ar gyfer Plot 2 wedi'i gwblhau.	• Cwblhau'r Cytundeb Cyllid Grant. • Penodi Prif Gontractwyr ar gyfer Plot 2 Tregarnedd. • Dechrau gwaith ar y safle.		• Prosiect ar y trywydd iawn i'w gychwyn ar y safle ddiwedd Ch2 Blwyddyn Ariannol 26/27.
Padeswood Trafnidiaeth Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Mae Memorandwm o Ddealltwriaeth wedi'i gwblhau.	• Darparu amserlen gadarn ar gyfer cyflawni'r prosiect. • Network Rail i rannu Rhaglen integredig o waith. • Network Rail i ddarparu costau diwygiedig ar gyfer y prosiect.		• Gwaith dylunio a chostau trac Network Rail yn parhau.
Ysgol Fusnes Albert Gubay Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Prif Gontractwr wedi'i benodi gan Brifysgol Bangor. • Cytundeb Cyllid Grant wedi'i gwblhau. • Dechreuodd y gwaith galluogi ym mis Awst ac yna gwaith ar y prif safle ym mis Medi.	• Stribed asbestos i'w gwblhau erbyn mis Tachwedd. • Gwaith dymchwel i'w gwblhau cyn Nadolig 2026.		• Prosiect yn gwneud cynnydd da ar y safle a dim problemau i'w hadrodd.
Porthladd Mostyn Mostyn Estates	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Gwaith tir wedi'i gwblhau. • Cytundeb Cyllid Grant wedi'i gwblhau. • Dechreuodd y gwaith carthu ar gyfer y brif sianel..	• Cadarnhau tendrau pecynnau gwaith ffensys diogelwch a'r padiau lifft trwm. • Gwaith cladin i ddechrau ar adeiladau Marsh Row.		• Prosiect yn gwneud cynnydd da. • Mater parhaus o dresmasu gan aelodau o'r cyhoedd.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Nod y Rhaglen

Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- **Anturiaethau Gyfrifol –** Cymeradwywyd Achos Cyfiawnhad Busnes y Slate Explorer gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd a derbyniodd adborth positif ar ei Gynllun Sgiliau gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- **Academi Croeso –** Sicrhawyd cymeradwyaeth ar gyfer yr Achos Cyfiawnhad Busnes yn cadarnhau mai Dylan's Restaurant Ltd oedd y partner lloeren newydd. Mae gweithgarwch caffael wedi symud ymlaen dros y misoedd ar gyfer gwaith trydanol mawr ar gyfer prosiect Dylan's.
- **Hwb Economi Wledig Glynllifon –** Mae'r gwaith sylfaen ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo i'r cam nesaf. Derbyniwyd cymeradwyaeth hefyd ar gyfer argymhelliad caffael Cam 2 Datblygu Llaeth Cynaliadwy, yr Hawliad cyntaf a dderbyniwyd o'r prosiect.
- **Dyfodol Venue Cymru –** Sicrhaodd y prosiect £1 miliwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2026/27, ochr yn ochr â chyllid datgarboneiddio ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith i wella'r awditoriwm.



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Prosiect (Ariannwr y Prosiect	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Hwb Economi Gwledig Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai	Defaid Llaeth Cymru yn cael ei gyflawni. Llaeth Cynaliadwy - Cymeradwywyd gan y BJC. Hwb yn datblygu FBC	• Llaeth Defaid Cymru – Mae'r gwaith adeiladu yn parhau i fod ar amser ac yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r prosiect yn symud tuag at y cam adeiladu fertigol. • Datblygu Llaeth Cynaliadwy – Mae'r adroddiad argymhelliad caffael ar gyfer Cam 2 wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi. • Datblygu Hwb – Mae gwaith parhaus yn parhau ar gynigion cynllunio.	• Cyflwyno'r hawliad prosiect cyntaf. • Dilyniant y gweithgareddau caffael sy'n weddill ar gyfer Datblygu Llaeth Cynaliadwy a Llaeth Defaid Cymru. • Cyflwyno cais cyn-gynllunio'r Hwb..		• Angen caniatâd cynllunio ar gyfer Hwb. • Cynnydd mewn costau ar gyfer yr Datblygiad Llaethdy Cynaliadwy oherwydd chwyddiant. • Gweithgaredd caffael heb ei gwblhau.
Academi Croeso Grŵp Llandrillo Menai	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Prosiect Amnewid Dylan's – Yr Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. • Caffael – Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cymeradwyo'r gweithgaredd caffael ar gyfer pecyn mawr o waith Prosiect Amnewid Dylan's. • ZipWorld – Cynhaliwyd trafodaethau gyda ZipWorld ar drefniadau cyflawni prosiectau a'r camau nesaf.	• Cwblhau'r trefniadau masnachol ar gyfer prosiect lloeren Dylan's. • Cwblhau llofnodi'r cytundeb cefn-wrth-gefn rhwng GLlM a Dylan's. • Cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer cyflawni'r prosiect lloeren ZipWorld. • Cytuno ar amserlen a cherrig milltir allweddol ar gyfer cyflawni elfen Hwb ar gampws Llandrillo yn Rhos Grŵp Llandrillo Menai.		• Cwblhau cytundebau cefn-wrth-gefn. • Gweithgaredd caffael anghyflawn. • Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth gyda phartneriaid strategol. • Oedi gyda'r hawlio yn erbyn y proffil.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Prosiect (Ariannwr y Prosiect	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Dyfodol Venue Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Mae'r adroddiad argymhelliad caffael ar gyfer seddi'r awditoriwm wedi'i gwblhau a'i lofnodi. • Mae datblygiad yr Achos Busnes Llawn yn parhau i fynd rhagddo. • Mae gweithgareddau cynllunio a dylunio wedi datblygu, gan gefnogi'r cam nesaf o ddatblygu prosiectau.	• Cyflwyno'r cais cynllunio, ynghyd â'r arolygon ategol angenrheidiol. • Cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i'r is-bwyllgor. • Gweithgaredd caffael cynnydd i gefnogi cyflawni prosiectau.		• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. • Oedi gyda'r caffael o ganlyniad i ail sgopio adnewyddu'r awditoriwm. .
Anturiaethau Cyfrifol ZipWorld	Slate Explorer - Yn cael ei gyflawni Datblygu BJC / Achos Busnes Llawn	• Slate Explorer - Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes wedi'i gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. • Cynllunio Slate Explorer - Ymgysylltu parhaus yn parhau gydag ymgynghoreion statudol a rhanddeiliaid cynllunio i gefnogi datblygiad prosiectau. • Mae gweithgarwch caffael ar gyfer prosiect Slate Explorer yn parhau i fynd rhagddo, gan gefnogi'r cam nesaf o gyflawni.	• Cwblhau gweithgareddau caffael ar gyfer yr elfen Slate Explorer. • Sicrhau cymeradwyaeth cynllunio ar gyfer y Slate Explorer. • Cytuno ar amserlen ar gyfer datblygu a chyflwyno'r Achos Busnes nesaf. • Cwblhau a selio'r Cytundeb Cyllid Grant ar gyfer Slate Explorer.		• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. • Slate Explorer mewn gweithgaredd caffael. • Oedi gyda'r amserlenni o ganlyniad i ganiatâd cynllunio.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU GWERTH UCHEL

Nod y Rhaglen

Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- Datblygodd y **Ganolfan Peirianneg ac Opteg Menter** Achosion Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Labordy Offer a Hydrogen Plas Coch. Integreiddio offer newydd i'r cwricwlwm, gan gefnogi sgiliau hirdymor a chanlyniadau arloesi.
- Mae'r **Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** yn bwrw ymlaen â gwaith ychwanegol ar ôl dyfarnu tendr o ganlyniad i'r tanwariant.
- **Society 5.0** - Rhaglen offer fawr yn parhau, gyda'r dyluniad terfynol a'r costau wedi'u cytuno ar gyfer yr ystafell sinteru.
- **Prosiect Prince Knauf** - Gwaith adfer safle ar y gweill ar ôl cymeradwyo cynllunio. Mae sicrhau caniatâd cynllunio llawn yn parhau i fod yn ddibyniaeth allweddol, a disgwylir y bydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn Ch3.
- Gwaith adnewyddu **Porth Busnes Prifysgol Wrecsam** - Theatr Nick Whitehead wedi'i gwblhau a'i ailagor. Gweithgaredd caffael a dylunio yn mynd rhagddo ar gyfer camau nesaf y prosiect.



Tony Ward
Pennaeth Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU GWERTH UCHEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Wrecsam	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Achos Cyfiawnhad Busnes Hydrogen Drafft wedi'i gyflwyno i'w adolygu. • Ymgysylltu parhaus â busnesau rhanbarthol i wneud y defnydd mwyaf o'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter. • Gweithgaredd caffael yn mynd rhagddo.	• Ystyriaeth Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Offer Plas Coch a Labordy Hydrogen. • Caffael wedi'i gwblhau ar gyfer y prosiect.		• Prosiect yn agosáu at statws gweithredol llawn. • Mân oedi i gyflawni'r prosiect oherwydd caffael a chwblhau contractau. • Buddion yn parhau i gael eu gwireddu ar draws y prosiect.
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Dyfarniad tendr ar gyfer Gwaith ychwanegol Henfaes. • Mae hyfforddiant ar yr offer arbenigol newydd ar gyfer staff yn parhau.	• Ymgymryd â phrosiectau cychwynnol gan ddefnyddio cyfleuster Bioadweithydd newydd. • Hyfforddiant parhaus ar offer newydd. • Dechrau ar gyflwyno'r gwaith ychwanegol.		• Prosiect yn agosáu at statws gweithredol llawn... • Buddion yn cael eu gwireddu • Ychydig o oedi i waith ychwanegol
Society 5.0 Prifysgol Wrecsam	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Offer Festo awtomataidd wedi'i osod yn CanfodAU. • Dril cyfansawdd wedi'i gyflwyno a'i osod. • Cytunodd Wynne Construction ar y dyluniad terfynol a'r pris ar gyfer cwblhau'r ystafell sinteru.	• Offer a ddefnyddir yn y cwricwlwm. • Cychwyn gwaith adnewyddu ystafell sinteru. • Hawlio gwariant llawn y prosiect.		• Cynhaliwyd digon o brofion o'r farchnad ar gyfer yr offer sy'n weddill. • Rhywfaint o oedi oherwydd gweithgaredd caffael. • Prosiect yn agosáu at statws gweithredol llawn.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU GWERTH UCHEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Project Prince Knauf	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Dechreuodd y gwaith adfer safle ar ôl cymeradwyo cynllunio unfrydol ym mis Gorffennaf. • Mae gwaith dylunio manwl ar gyfer y prif adeilad yn parhau i fynd rhagddo. • Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau caniatâd cynllunio a mynd i'r afael â gofynion amgylcheddol. • Gweithgaredd caffael, pecyn cyntaf wedi'i ryddhau ar Sell2Wales	• Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad fertigol. • Cytuno ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Llawn. • Parhau â gweithgarwch caffael i gefnogi cyflawni'r prosiect.		• Proses Cynllunio ac Amgylcheddol gymhleth i gael caniatâd, ond digon o ymgysylltu â rhanddeiliaid i liniaru cymaint o risg â phosib.
Porth Busnes Prifysgol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Proses dendro ar gyfer Gwasanaeth Cyn-Adeiladu ar gyfer y prif adeilad ar y gweill. • Gwasanaeth Cyn Adeiladu ar gyfer Adeilad Catrin Finch yn cael ei gyflawni • Gwaith adnewyddu Nick Whitehead wedi'i gwblhau a'i ailagor.	• Nodwyd y contractwr a ffefrir ar gyfer Cam 2 y Porth • Datblygwyd gweithgareddau cyn-adeiladu ar gyfer Canolfan Catrin Finch, gyda dylunio a datblygu costau wedi'u hadolygu. • Caffael cytundeb gwasanaeth cyn adeiladu wedi'i gwblhau, ar gyfer y prif adeilad.		• Cynnydd at yr Achos Busnes Llawn yn mynd yn dda. • Cytundeb Cyllid Grant yn cael ei ddrafftio. • Aliniad gweithgarwch caffael â phrosesau Uchelgais Gogledd Cymru.

PROFFIL SWYDDI A BUDDSODDI

☑ - wedi gwblhau/yn gweithredu
☑ - ar y gweill

Prosiect	Cam Caniatâd				Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
	Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinellol / Caniatâd	Cynllunio llawn / Caniatâd	Amodau wedi'u gweithredu	Pennu cyd-destun y Prosiect	Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol	Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol	Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol	Paratoi'r Achos Busnes Llawn	Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn	Gweithredu a monitro'r prosiect	Arfarnu'r Prosiect
Canolfan Prosesu Signal Digidol	Dim angen cynllunio				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
4G+	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
LPWAN	Dim gofynion cydsynio				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Di-wifr Uwch	Dim cydsynio ar lefel y cynllun grant				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Cydnerth (Morlais)	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Egni	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Ynni Lleol Blaengar	Nid oes angen cydsynio ar lefel y gronfa				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Hwb Hydrogen Caergybi	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑			
Busnes, Arloesi a Sgiliau Trawsfynydd	☑				☑	☑	☑	☑	☑			
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Parc Bryn Cegin, Bangor	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Porth Wrecsam	☑	☑			☑	☑	☑	☑	☑			
Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Porth y Porthladd Rhydd	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Padeswood	Dim gofynion cydsynio (i'w gadarnhau)				☑	☑	☑	☑	☑			
Ysgol Fusnes Albert Gubay	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Porthladd Mostyn	Nid oes angen caniatâd cynllunio.				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Hwb Economi Gwledig Glynllifon	☑				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Rhwydwaith Talent Twristiaeth	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Antur Gyfrifol	☑	☑			☑	☑	☑	☑	☑			
Dyfodol Venue Cymru	☑				☑	☑	☑	☑	☑			
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Opteg a Pheirianneg Menter	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Society 5.0	Dim angen cynllunio				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Prosiect Prince	☑				☑	☑	☑	☑	☑			
Porth Busnes	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			

Tudalen 14

PROFFIL SWYDDI A BUDDSODDI

PROSIECTAU YN CAEL EU CYFLAWNI

Rhaglen	Prosiect	Statws RAG	Swyddi		Cynllun Twf		Cyfanswm Buddsoddiad	
			Targed	Gwir*	Dyraniad (£m)*	Gwir (£m)*	Targed (£m)*	Gwir (£m)*
Cysylltedd Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol		40	23	2.96	2.95	3.08	3.14
	4G+		173	0	19.54	0.04	30.31	0.04
	LPWAN		39	0	6.17	0.30	8.20	0.30
	Di-wifr Uwch		20	0	1.14	0.05	1.14	0.05
Ynni Carbon Isel	Cydnerth (Morlais)		253	8	8.87	8.87	15.99	8.87
	Cronfa Ynni Glan		186	2	24.63	0.81	102.5	0.91
	Egni		63	0	3.94	0.20	10.01	2.86
Tir ac Eiddo	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - Cam 1		0	0	2.00	0.53	5.00	1.85
	Parc Bryn Cegin, Bangor		83	0	7.49	2.07	8.84	2.07
	Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn		95	0	7.00	0.51	10.44	1.87
	Ysgol Fusnes Albert Gubay		90	1	7.3	0.08	20.45	3.47
	Porthladd Mostyn		299	0	4.0	0.96	14.70	6.80
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Academi Croeso		68	0	4.43	2.20	19.28	3.94
	Hwb Economi Gwledig Glynllifon - Llaeth Defaid ac Llaethdy Cynaliadwy		66	0	5.0	0.59	9.9	4.87
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchell	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter		109	13	11.99	11.38	18.82	13.77
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol		67	8	2.96	2.21	3.46	2.71
	Society 5.0		106	0	1.5	1.06	3.00	2.63
	Swyddfa Rheoli Portffolio		-	9	5.15	3.03	5.15	3.03
	CYFANSWM		1,757	64	126.07	37.84	290.27	63.16

PROJECTS APPROVED NOT IN DELIVERY

Rhaglen	Prosiect	Statws Rag	Swyddi		Cynllun Twf		Cyfanswm Buddsoddiad	
			Targed	Gwir*	Dyraniad (£m)*	Gwir (£m)*	Targed (£m)*	Gwir (£m)*
Tir ac Eiddo	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - Cam 2		70	0	4.94	0.00	80.85	0.00
	Porth y Porthladd Rhydd		223	0	3.48	0.00	19.09	0.00
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Glynllifon Rural Economy Hub - Hub		40	0	6.82	0.00	9.39	0.00
	CYFANSWM		333	0	15.24	0	109.33	0.00

* Ffigyrau i'r 2 pwynt degol, o ganlyniad mae'r cyfanswm yn seiliedig ar y gwir ffigwr i'r ddau bwynt degol agosaf.

ATODIAD A - CRYNODEB O BROSIECTAU'R CYNLLUN TWF

	Prosiect	Noddwr	Crynodeb
Digidol	Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)	Prifysgol Bangor	Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf.
	4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	Bydd y prosiect hwn yn gwella cysylltedd symudol 4G mewn safleoedd economaidd allweddol yn y rhanbarth, gan dargedu llwybrau trafnidiaeth, canolfannau busnes a thwristiaeth a bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith pellach o gyflwyno 5G yn yr ardaloedd hyn.
	Di-wifr Uwch (Campysau Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	Bydd y prosiect Di-wifr Uwch yn cefnogi sefydliadau'r sector preifat a chyhoeddus i fabwysiadu'r technolegau diwifr diweddaraf i gefnogi gwell darpariaeth gwasanaeth, effeithlonrwydd busnes, arloesi a thwf, yn enwedig trwy ddefnyddio rhaglenni y rhyngrwyd pethau.
	LPWAN (Campysau Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflwyno gwasanaeth rhwydwaith LoRaWAN (Long Range Wide Area Network) estynedig a hygyrch drwy'r rhanbarth, gan roi datrysiad cost effeithiol i ddefnyddwyr busnes a sector cyhoeddus i fabwysiadu ceisiadau rhyngrwyd o bethau ac arloesedd ategol.
Ynni Carbon Isel	Cydnerth (Morlais)	Menter Môn	Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
	Egni	Prifysgol Bangor	Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd
	Ynni Lleol Blaengar	Uchelgais Gogledd Cymru	Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar.
	Hwb Hydrogen Caergybi	Menter Môn	Bydd y prosiect yn adeiladu cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynhyrchu oddeutu 2000+kg/y dydd o hydrogen gwyrdd, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru.
	Canolfan Arloesi a Sgiliau Busnes Trawsfynydd	Cyngor Gwynedd	Cynllun a fydd yn cynnwys adeilad i gynnwys mannau ar gyfer swyddfeydd, labordai (union fanyleb i'w chadarnhau) a chyfleusterau ategol (lle cyfarfod, caffi/ffreutur ac ati), i gefnogi'r diwydiant niwclear ac ynni carbon isel ynghyd â'r gymuned wyddonol, wedi'i leoli ar Safle Trawsfynydd.
Tir ac Eiddo	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Uchelgais Gogledd Cymru	Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Uchelgais Gogledd Cymru	Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.
	Porth Wrecsam	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad cynaliadwy o ardal fywiog wedi'i hadfywio, sy'n creu canolbwynt i gefnogi buddsoddiad busnes a hwb trafnidiaeth aml-ddull gyda chysylltiadau at deithio llesol.
	Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn	Cyngor Sir Ynys Môn	Darparu 2,200 metr sgwâr o ofod busnes yng ngogledd Ynys Môn gan greu o leiaf 59 o swyddi a throsoli twf y Porthladd Rhydd ac ynni carbon isel.
	Porth y Porthladd Rhydd	Cyngor Sir Ynys Môn	Datgloi 6,750 metr sgwâr o ofod busnes yn Llangefni, gan greu o leiaf 186 o swyddi a gwneud y mwyaf o fanteision Porthladd Rhydd Ynys Môn.
	Padeswood	Trafnidiaeth Cymru	Gwelliannau i'r rheilffordd i gael gwared ar gyfyngiadau a mynd i'r afael â mynediad/allanfa ar gyfer cludo nwyddau rheilffordd i mewn i Waith Sment Padeswood
	Porthladd Mostyn	Porthladd Mostyn	Uwchraddio'r angorfa ac adfywio'r hen safle diwydiannol.
	Ysgol Fusnes Albert Gubay	Prifysgol Bangor	Adeiladu Ysgol Fusnes Albert Gubay ym Mhrifysgol Bangor.
Bwyd amaeth a thwristiaeth	Hwb Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	Y weledigaeth yw creu Hwb Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod.
	Academi Croeso (Rhwydwaith Talent Twristiaeth)	Grŵp Llandrillo Menai	Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.
	Antur Gyfrifol	Zip World	Prosiect aml-elfen fel rhan o becyn cynaliadwy ac eco-dwristiaeth sy'n cynnwys Car Cebl cynaliadwy newydd, Slate Explorer gan gynnwys platfform gwylio ymwelwyr, a Swing.
	Dyfodol Venue Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Prosiect a fydd yn ehangu cyfleusterau Venue Cymru, yn rhoi hwb i swyddi, yn torri carbon, ac yn denu sioeau a chynadleddau mawr a buddsoddiad diwylliannol.
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB)	Prifysgol Bangor	Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru.
	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Wrecsam	Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol.
	Society 5.0	Prifysgol Wrecsam	Gwella'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter a galluogi i'r diwydiant gael mynediad at ragor o adnoddau peirianneg hynod-fanwl o'r radd flaenaf.
	Prosiect Prince	Knauf	Adeiladu ffatri wlân mwynol 110kt gyda ffwrnais arc tanddwr (SAF), yn bennaf i wasanaethu marchnadoedd y DU ac Iwerddon.
	Porth Busnes Prifysgol Wrecsam	Prifysgol Wrecsam	Pontio rhwng Prifysgol Wrecsam a diwydiant lleol, gan feithrin cydweithio, arloesi, creu swyddi a thwf economaidd cynhwysol.

ATODIAD – Diweddariad Chwarter 2

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Cronfa Ynni Glân
Clean Energy Fund


Diweddariad Chwarter 2d at Ch2 26/27


Enw sefydliad	Sir	Disgrifiad o'r prosiect	Grant	Benthyciad	Arian cyfatebol (Allbwn 2.1)	Cyfanswm gwerth y prosiect (SO2)	Swyddi a grewyd (SO1) (Allbwn 1.1)	Swyddi wedi diogelu wyd (Allbwn 1.3)	Lleihad carbon (SO3)	Perchnogaeth lleol (SO4)	Statws
	Wrecsam	Pwmp gwres, solar, effeithiolrwydd ynni, batri	£ 235,000	£ 10,000	£ 290,000	£ 535,000	3	0	12	100%	HoT *
Rugby Consortium	Amryw	Solar, batri, pwyntiau gwefru EV, effeithiolrwydd ynni, goleuadau LED	£ 263,513	£ 68,943	£ 194,572	£ 527,028	1	7	44	100%	HoT *
		Cyfanswm Sector Wirfoddol	£ 498,513	£ 78,943	£ 484,572	£ 1,062,028	4	7	56	100%	
Ty'n Yr Onnen Farm Ltd	Gwynedd	Paneli Solar	£ -	£ 25,001	£ 12,449	£ 37,450	1	0	13	100%	Cyflawni
		Cyfanswm Sector Breifat	£ -	£ 25,001	£ 12,449	£ 37,450	1	-	13	100%	
		Cyfanswm Cronfa Ynni Lleol	£ 498,513	£ 103,944	£ 497,021	£ 1,099,478	5	7	69	100%	

HoT * - Prosiect wedi gymeradwyo a'r sefydliad ar hyn o bryd mewn trafodaethau Cyfreithiol/Masnachol

**dyma ddata y chwarter ac ddim yn ddata cronnus*

Datganiadau o ddiddordeb wedi ei cwblhau hyd at Ch2 26/27





**mae'r data yn y graff yn gronnus*

COFRESTR RISG PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg			Tuedd	Statws (agored/cae	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R001	21.10.2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Capasiti	Cyfarwyddwr Portffolio	Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus.	4	5	20	↔	Uchelgais Gogledd Cymru wedi cymeradwyo cyllideb refeniw i ymestyn contractau tymor penodol. Capasiti caffael, cyllid, cyfreithiol a technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau a'r PMO fel sydd angen. Fframwaith ymgynghorwyr i gael ei sefydlu yn Ch2 2025-26. PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio. Recriwtio yn ystod Ch3/4 ar gyfer Cyfarwyddwr Portffolio, Rheolwyr Prosiect ac swyddi CJC eraill i gynnyddu adnoddau yn y PMO. Cymeradwyaeth i'r cais i'r ddwy Lywodraeth i gynyddu'r haenen uchaf i 2.15% a galluogi'r PMO i gael at gyllid ychwanegol drwy gyllideb y Cynllun Twf a ymestyn cytundebau yn unol a'r angen. Adnoddau PMO ar brosiectau blaenoriaeth i sicrhau cwblhau FBC.	Yn ei le Parhaus Adolygu'n fisol Yn ei le Yn ei le Yn ei le	PMO PMO PMO, Arianwyr y Prosiectau PMO PMO PMO	3	4	12	↔	Agored	Wedi adolygu'r risg. Risg weddilliol wedi lleihau yn dilyn recriwtio.	09/10/2026
R002	21.10.2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Oediad	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os oes oedi i gyflawni prosiectau, mae yna risg y gallai hyn gael effaith ar wireddu buddion neu gallai olygu bod prosiectau ddim yn symud ymlaen.	5	5	25	↔	Ailddyrannu capasiti staff yn rheolaidd i brosiectau blaenoriaeth Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd. Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion gyda mesurau lliniaru yn cael ei rheoli ar lefel prosiect. Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru. Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn gweithio gyda arianwyr ar gyfer adnabod cyfleon i leihau oedi ac pan nad oes modd osgoi oedi lleihau yr effaith. Adroddiadau Chwarterol i'r Is-Bwyllgor Llesiant Economaidd a'r Bwrdd Portffolio i gyflwyno materion penodol lle bo angen. PMO yn gweithio gyda arianwyr prosiectau i adnabod cyfleoedd i leihau oedi ac lle nad oes modd osgoi oedi i leihau yr effaith.	Parhaus Misol amherthnasol Chwarterol Mewn lle Mewn lle	PMO PMO PMO PMO, Ariannwr y Prosiect PMO PMO, Ariannwr y Prosiect	3	4	12	↔	Agored	Risg wedi adolygu. Dim newid i'r sgôr risg gweddilliol, er hynny mae lleihau oedi yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y PMO. Bydd lliniaru'r risg capasiti (R001) yn cyfrannu tuag at liniaru, er hynny mae cynnydd yn cael ei effeithio gan noddwyr prosiectau. Mae cymeradwyo OBC ac FBC wedi mynd i'r afael â rhai oedi. Defnyddio adnoddau PMO yn fwy hyblyg wedi profi i fod yn effeithiol i gyflymu datblygiad achosion busnes. Bydd tebygolrwydd risg yn lleihau ymhellach os bydd cynnydd yn cael ei gynnal. Mae nifer o brosiectau yn profi oedi a fydd yn effeithio ar amseriad gwireddu buddion. Mae tynnu prosiectau sydd wedi cael oedi o'r Portffolio yn adlewyrchu lleihad y risg o 4 i 3. Mae y broses dewis prosiectau newydd wedi blaenoriaethu cyflawnadwyedd ac risg isel o oedi.	09/10/2026
R003	21.10.2020	Ariannol	Fforddiadwyedd	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os bydd costau'r prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau.	5	5	25	↔	Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau. Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect ac fe ystyrir opsiynau ariannu amgen. PMO yn ymgysylltu gyda noddwyr ar lefel prosiect i adnabod ffyrdd o liniaru'r cynnydd mewn costau. Mae cyflwyno prosiectau newydd yn cyflwyno potensial pellach ar gyfer risg fforddiadwyedd, i gael ei reoli drwy ddatblygiad achos busnes.	N/A Misol N/A Misol N/A	PMO, Ariannwr y Prosiect PMO PMO PMO PMO	4	4	16	↔	Agored	Adolygwyd y risg. Dim newid i'r risg gweddillion. Mae gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno mwy o risg ar gadwyni cyflenwi ac mae noddwyr y prosiect yn cael eu ymgynghori ar hyn o bryd ar eu hasesiad o'r risg hon. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd cynnydd mewn costau ar draws llawer o gategorïau, heb ddeall llawn effaith ar gadwyni cyflenwi byd-eang eto. Bydd risg weddilliol yn cael ei hailasesu ar draws y Portffolio pan fydd manylion pellach ar gael. Mae'r risg sgôr weddilliol yn parhau yn uchel gan fod costau wedi cynnyddu yn sylweddol ers i'r Cynllun Twf gael ei gytuno nol yn Rhagfyr 2020. Er fod costau wedi sefydlogi am y tro, mae'r cyllid Cynllun Twf gan y llywodraeth wedi'i osod ar y swm y cytunwyd arno yn 2020, felly mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn her. Mae hyn yn cael ei reoli ar sail prosiect gyda rhai prosiectau yn gallu edrych ar newidiadau dylunio, newidiadau i fodelau dosbarthu ac eraill angen sicrhau cyllid ychwanegol o ffynhonellau eraill.	09/10/2026
R006	21.10.2020	Amgylcheddol	Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth	Cyfarwyddwr Portffolio	Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.	4	3	12	↔	Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu. Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa sydd wedi'i fabwysiadu. Methodoleg ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau bellach wedi'i chyhoeddi a'i rhannu gyda'r holl brosiectau Methodoloeg gryno ar gyfer prosiectau llai a risg isel yn cael ei ddatblygu gyda'r WLGA ar gyfer ei fabwysiadu	N/A N/A Yn ei le Ebrill 2025	UGC PMO/SROs y Prosiect PMO PMO	3	3	9	↔	Agored	Risg wedi ei adolygu. Dim newidiadau i sgorau risg gros neu risg weddilliol. Mae gweithredu'r ddull a'r hyfforddiant cysylltiedig yn parhau	09/10/2026

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg			Tuedd	Statws (agored/cau	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R007	21.10.2020	Ariannol	Buddsoddiad Sector Preifat	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth.	4	5	20	↔	Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf Mae strategaeth buddsoddiad mewn lle i gefnogi'r PMO i ymgysylltu ac diogelu buddsoddiad sector breifat	N/A N/A Mewn lle	PMO/SROs y Prosiect PMO/SROs y Prosiect PMO	4	4	16	↔	Agored	Dim newid i risg weddilliol. Mae amodau economaidd byd-eang sy'n gysylltiedig â chyfandaliad yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno risg bellach i hyder buddsoddwyr ac mae noddwyr prosiect ar hyn o bryd yn cael eu ymgynghori ar eu hasesiad o'r risg hon. Mae sicrhau buddsoddiad sector breifat ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae'r safbwynt wedi gwella gyda creu y rhestr wrth gefn. Mae'r risg hefyd yn gysylltiedig gyda R020 Rheoli Cymhorthdal	09/10/2026
R008	21.10.2020	Ariannol	Buddsoddiad Sector Cyhoeddus	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth.	4	4	16	↔	Mae holl bartneriaid Uchelgais Gogledd Cymru wedi llofnodi'r Cytundeb Terfynol a Chytundeb Llywodraethu. Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf Cefnogi noddwyr prosiect gyda ceisiadau am arian cyhoeddus lle'n briodol	Wedi cwblhau N/A Yn ôl yr angen	Partneriaid PMO/SROs y Prosiect PMO	3	4	12	↔	Agored	Dim newid i risg weddilliol. Mae amodau economaidd byd-eang sy'n gysylltiedig â chyfandaliad yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno risg bellach i hyder buddsoddwyr ac mae noddwyr prosiect ar hyn o bryd yn cael eu ymgynghori ar eu hasesiad o'r risg hon. Mae sicrhau buddsoddiad sector breifat ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau i fod yn risg uchel, er hynny mae'r safbwynt wedi gwella gyda creu y rhestr wrth gefn. Mae'r risg hefyd yn gysylltiedig gyda R020 Rheoli Cymhorthdal	09/10/2026
R009	21.10.2020	Rheoleiddio	Caniatâd Cynllunio a Statudol	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu.	5	5	25	↔	Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau ac awdurdodau caniatâd i ddeall y broses caniatad a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol Adolygiad gwersi a ddysgwyd i'w gyflawni ar ôl oedi gyda chymeradwyo ar lefel prosiect Y Cadeirydd ac/neu Cyfarwyddwr Portffolio i ysgrifennu i'r awdurdodau caniatau i amlygu'r effaith o oedi mewn penderfyniadau pan mae risgiau unigolo prosiect yn cael ei uchafu. Cyfeirio nol i'r SRO Rhaglen i adolygu i adolygu'r risg/mater o ran caniatâd Ffosffad sy'n effeithio ar brosiectau lluosog er mwyn cynnig lliniaru priodol. Ar gyfer prosiectau rhestr wrth gefn, mae meini prawf cynllunio wedi'u gosod cyn cyflwyno achos busnes, h.y. dim ymrwymiad i gyllid nes bod yr achos busnes wedi'i gymeradwyo. Mewnbwn, cyngor a chefnogaeth cynllunio uniongyrchol, yn rhan ehangach o dim Uchelgais Gogledd Cymru ar gyfer noddwyr prosiect ac fel pwynt cyswllt gyda Awdurdodau Cynllunio a phartion perthnasol eraill.	N/A N/A Yn ei le Fel bo'r angen N/A N/A N/A	PMO/SROs y Prosiect PMO PMO, Arianwyr y Prosiectau Cyfarwyddwr Portffolio SRO Rhaglen PMO CBC	5	4	20	↔	Agored	Risg wedi adolygu. Mae'r broses o uwchraddio gweithfeydd trin dŵr i liniaru ffosffadau o'u gollyngiadau yn cymryd mwy o amser ac mae hyn bellach yn effeithio ar geisiadau cynllunio. Nid oes unrhyw brosiectau'r Cynllun Twf wedi'u heffeithio eto ond mae cais amlinellol wedi'i gyflwyno ar gyfer Porth Wrecsam. Mae risg sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â SUDS/SABs a allai effeithio ar ganiatâd. Mae caniatâd yn parhau i fod yn risg uchel ac mae'n cael ei reoli ar lefel rhaglen a phrosiect o fewn y Cynllun Twf. Mae'r cymorth cynllunio a ddarperir gan y CBC i brosiectau wedi galluogi ganolbwyntio o'r newydd ar ddod o hyd i atebion i faterion cynllunio a oedd yn flaenorol wedi atal y broses o ystyried y prosiectau hynny. Mae gan y prosiectau hynny bellach momentwm cadarnhaol tuag at sicrhau caniatâd cynllunio, neu ddarparu'r dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen i gyrraedd y cam hwnnw. Mae prosiectau hefyd yn derbyn cymorth cynllunio yn y camau cynnar gan y CBC i sicrhau bod risgiau'n cael eu deall yn well, gan leihau'r tebygolrwydd o broblemau yn ddiweddarach.	09/10/2026
R010	21.10.2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Amcanion Gwariant	Cyfarwyddwr Portffolio	Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad.	4	4	16	▼	Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio Cytundebau Ariannu Grant i ymrwymo noddwyr yn gytundebol i gyflawni amcanion gwariant, gyda adrodd rheolaidd a monitro i sicrhau bod mewnbwn buan os oes angen. Proses adolygu portfolio a rheoli newid yn ei lle. Proses prosiectau newydd wedi ei gwblhau ar gychwyn 2025 gyda rhestr wrth gefn o brosiectau wedi sefydlu. Mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu a chymeradwyo.	N/A Parhaus N/A Wedi gwblhau Yn ei le	PMO/SROs y Prosiect PMO PMO PMO PMO	4	4	16	↔	Agored	Dim newidiad i'r risg Gros a gweddilliol. Er i greu'r Rhestr Gefn leihau effaith y prosiectau a dynodwyd a darparu hwb gyda chymeradwyaethau achos busnes diweddar, mae'r risg yn parhau'n uchel.	09/10/2026
R013	21.10.2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Newid Gwleidyddol	Cyfarwyddwr Portffolio	Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau.	4	4	16	↔	Pecynnau briffio a sesiynau yn cael ei cynnal ar gyfer aelodau newydd y Senedd a Gweinidogion newydd yn dilyn etholiad. Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol. Cytundeb Cyflawni a Chyllid (GA3) a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon. Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn y newid mewn arweinyddiaeth Ymgysylltu â Gweinidogion newydd Llywodraeth y DU	N/A Wedi cwblhau Wedi cwblhau Parhaus	Uchelgais Gogledd Cymru, PMO Uchelgais Gogledd Cymru PMO PMO	3	4	12	↔	Agored	Risg wedi adolygu. Dim newid i'r risg gweddilliol. Etholiadau Awdurdod Lleol yn 2027 sy'n golygu gall y risg gynnyddu yn y dyfodol.	09/10/2026

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg			Tuedd	Statws (agored/cau	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R014	22.10.2020	Ariannol	Twyll	Cyfarwyddwr Portffolio	Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus.	4	4	16	↔	Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle gan gynnwys gwiriadau diwydrwydd ar noddwyr prosiect a derbynwyr yr arian. PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o'r Cytundeb Llywodraethu Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol.	N/A N/A Wedi cwblhau N/A	PMO PMO Swyddog Monitro PMO	2	4	8	↔	Agored	Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu risg weddilliol. Mae'r risg weddilliol yn parhau i fod yn isel oherwydd y prosesau sydd mewn lle gan Ambition Gogledd Cymru. Cynhaliwyd rownd arall o hyfforddiant twyll ar gyfer y PMO a Bwrdd Cyflwyno Busnes ym Mai 2024. O 2025 bydd prosiectau gweithredol sy'n cynnwys cynlluniau grant/cronfeydd yn cael eu rheoli yn unol â dull PMO o diwydrwydd dyladwy. Mae gwasanaeth diwydrwydd dyladwy addas Llywodraeth y DU 'Spotlight' a gyflwynwyd i'r PMO o 2026 i gefnogi adolygiadau diwylliant addas. Sesiwn ymwybyddiaeth twyll wedi ei gynnal gyda'r Tîm Rheoli gan Pennaeth Twyll Llywodraeth Cymru yn mis Gorffennaf 2026.	09/10/2026
R015	22.10.2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Gwireddu Buddion	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes.	4	4	16	↔	Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion. Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion Egwyddorion Caffael wedi'u mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau System Impact wedi ei lansio a thimau prosiect wedi hyfforddi.	N/A Misol Wedi cwblhau N/A N/A	PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau PMO PMO PMO PMO	3	3	9	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Amlygodd adolygiad sicrwydd diweddar waith y PMO ar wireddu buddion fel arfer da a fydd yn sicrhau bod y strwythurau a'r systemau yn eu lle i helpu prosiectau i wireddu ac adrodd ar wireddu buddion. Cyfnod gwireddu buddion yn parhau i leihau, er hynny mae'r pwyslais ar gyflawni ar gyfer prosiectau rhestr wrth gefn yn lleihau y risg (weler R002)	09/10/2026
R016	22.10.2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Sicrwydd	Pennaeth Gweithrediadau	Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth.	3	5	15	↔	Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol. Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP Proses wedi symleiddio ar gyfer sicrwydd wedi gyflwyno ar gyfer prosiectau newydd.	Wedi cwblhau Chwarterol N/A	PMO PMO PMO	2	4	8	↔	Agored	Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol.	09/10/2026
R017	22.10.2020	Ariannol	Rheolaeth Ariannol	Swyddog a151	Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl.	3	4	12	↔	Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd. Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr	N/A N/A Misol N/A	PMO PMO, SRO y Prosiect PMO, SRO y Prosiect PMO	2	3	6	↔	Agored	Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae risg gweddilliol yn parhau i fod yn isel oherwydd y prosesau sydd ar waith gan Uchelgais Gogledd Cymru a'r cytundebau ariannu gyda noddwyr prosiectau.	09/10/2026
R018	01.10.2020	Ariannol	Cyllid refeniw	Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect	Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion.	4	5	20	↔	Cyllideb refeniw wedi ei chymeradwyo ar gyfer ymestyn contractau tymor penodol. Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Uchelgais Gogledd Cymru PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru PMO i gyfalafu posib costau cyflog sy'n gysylltiedig a cyflawni prosiect lle'n briodol ac yn unol ar canllawiau. Haenen uchaf y Cynllun Twf wedi ei gynyddu i 2.15%, a galluogi ymestyn cytundebau dros dro. Cais SPF i'r 6 Awdurdod Lleol wedi bod yn llwyddiannus.	N/A N/A N/A N/A Wedi gwblhau N/A	PMO PMO, SRO y Prosiect PMO, SRO y Prosiect PMO PMO PMO	3	4	12	↔	Agored	Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Cyllideb ar gyfer 26/76 wedi ei gymeradwyo gan y Cyd-Bwyllgor. Cynllun Cyllid Tymor Canolig ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu.	09/10/2026
R019	01.10.2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectau a gallai buddion rhanbarthol fod yn is.	4	4	16	↔	Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi. RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol	N/A N/A Yn ei le N/A	PMO PMO PMO Arianwyr y Prosiectau	3	4	12	↔	Agored	Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Mae cydweithio agos rhwng y PMO a'r RSP ar sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn allweddol i leihau tebygolrwydd y risg hon. Mae hwn yn weithgaredd parhaus i sicrhau bod y capasiti a'r sgiliau yn y rhanbarth i fanteisio ar y cyfleoedd drwy'r Cynllun Twf.	09/10/2026

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg			Tuedd	Statws (agored/cae	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R020	03.10.2022	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Y Cyd-destun Economaidd	Swyddfa Rheoli Portffolio	Os oes newidiadau sylweddol i economi'r DU (e.e. yr argyfwng costau byw a'r argyfwng diogelwch ynni), gall hyn effeithio'n andwyol ar achosion strategol ac economaidd rhaglenni a phrosiectau.	3	5	15	↔	Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau, yn cynnwys effaith datblygiadau economaidd diweddar	N/A	PMO, Arianwyr y Prosiectau	3	5	15	↔	Agored	Risg wedi'i hadolygu: Dim newidiadau ar unwaith. Mae'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol yn cyflwyno risg bellach ar gadwyni cyflenwi ac mae cydnabyddwyr y prosiect ar hyn o bryd yn cael eu ymgynghori ar eu hasesiad o'r risg hon. Bydd angen ailasesu'r risg weddilliol ar draws y Portffolio pan fydd manylion pellach ar gael. Mae materion byd-eang sy'n datblygu sy'n effeithio ar gadwyni cyflenwi a marchnad ynni yn debygol o effeithio ar gostau yn y tymor byr i'r tymor canol.	09/10/2026
R021	26/04/2024	Rheoleiddio	Rheoli Cymhorthdal	Swyddfa Rheoli Portffolio	Cysylltedig gyda risg buddsoddiad Sector Breifat R008: Os na fydd asesiadau rheoli cymhorthdal yn cael ei cadarnhau gall cymeradwyo ariannu gael ei oedi neu ei beryglu.	3	4	12	↔	Adolygu opsiynau ar gyfer dim buddsoddiad cymhorthdal e.e. benthyciadau masnachool Trafod manylion ac asesiadau gyda noddwyr prosiect mor fuan a sydd bosibl (taflen telerau) Ymgynghori gyda cymorth cyfreithiol yn fuan ar asesiadau Rheoli Cymhorthdal Arweinydd Rheoli Cymhorthdal a cefnogaeth wedi ei adnabod o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio	Fel camau SOC-FBC	Rheolwyr Rhaglen	3	3	9	↔	Agored	Risg wedi ei adolygu. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. Caiff heriau wrth gwblhau asesiadau 7 Egwyddor eu cefnogi gan gyngor cyfreithiol arbenigol allanol ond mae angen mynd i'r afael â'r rhain yn gynharach yn y broses sicrwydd, e.e. ar gam y Dalen Telerau cyn cwblhau CDB.	09/10/2026

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD
13 Tachwedd 2026

TEITL: Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cais i ymestyn Cyfnod Dilysrwydd Achosion Busnes Amlinellol

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymestyn y cyfnod dilysrwydd a bennwyd yn flaenorol gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd er mwyn caniatáu digon o amser i gyflwyno ac ystyried yr Achosion Busnes Llawn.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais i ymestyn Cyfnod Dilysrwydd yr Achosion Busnes Amlinellol a gymeradwywyd yn flaenorol fel yr amlinellir yn adran 4.3 yr adroddiad.

2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi os nad yw'r prosiectau yn mynd ymlaen i Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo yn ystod y cyfnod hwn, y bydd yn ofynnol iddo ddychwelyd i'w ystyried ymhellach gan yr Is-bwyllgor.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i ymestyn y dyddiad dilysrwydd ar gyfer yr Achosion Busnes Amlinellol oherwydd y rhesymau a nodir yn Adran 4.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL AR GYFER Y CAIS I YMESTYN YR AMSER I GWBLHAU'R CYTUNDEBAU ARIAN GRANT AR DRI PHROSIECT

4.1 Mae'r prosiectau a nodir isod wedi'u cymeradwyo gan yr Is-bwyllgor rhwng mis Hydref 2025 a Mai 2026 yn y cam Achos Busnes Amlinellol. Rhoddwyd cymeradwyaeth iddynt ar y sail y byddent yn parhau i fod yn ddilys am gyfnod o rhwng chwe a deuddeg mis o ddyddiad penderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd disgwyl i'r prosiectau ddatblygu a chyflwyno eu Hachosion Busnes Llawn i'w hystyried a'u cymeradwyo. Os nad yw prosiect yn symud ymlaen i Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo o fewn y cyfnod hwn, mae'n ofynnol iddo ddychwelyd i'r Is-bwyllgor i'w ystyried a'i gymeradwyo ymhellach.

4.2. Gofynnir am yr estyniad hwn er mwyn darparu digon o amser i'r prosiectau gwblhau'r gweithgareddau datblygu a diwydrwydd dyladwy angenrheidiol a chyflwyno eu Hachosion Busnes Llawn i'w cymeradwyo.

4.3. Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i ddeall y sefyllfa bresennol ar gyfer pob prosiect a'r rheswm y tu ôl i'r cais hwn, nodir hyn yn y tabl isod:

Enw'r Prosiect a'r Noddwr	Dyddiad cymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd	Rhesymau dros y cais am estyniad	Dyddiad arfaethedig cyflwyno'r Achos Busnes Llawn:	Dyddiad gorffen dilysrwydd diwygiedig arfaethedig
Prosiect Prince, Knauf	3 Hydref 2025	Bu oedi yn y broses gyda gwneud cais cynllunio ar gyfer y prif adeilad sy'n gofyn am yr estyniad. Mae gwaith adfer safle wedi'i gymeradwyo ac wedi dechrau.	Mawrth 2027	Tachwedd 2027
Porth Busnes, Prifysgol Wrecsam	6 Chwefror 2026	Mae Prifysgol Wrecsam wedi bwrw ymlaen i gyflwyno elfennau o'r prosiect mewn perygl. Mae oedi mewn caffael Cam 2 PCSA a gwerthuso gwerth cymdeithasol wedi effeithio ar amserlenni'r rhaglenni, gan ei gwneud hi'n anodd cwblhau gwaith prisio isgontractwyr cyn mis Chwefror 2027 a chyflwyno'r Achos Busnes Llawn fel y bwriadwyd yn wreiddiol.	Gorffennaf 2027	Tachwedd 2027
Dyfodol Venue Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	15 Mai 2026	Roedd y prosiect wedi ymrwymo i gyflawni 52% o gyfanswm y gwariant cyn cyflwyno Achos Busnes Llawn. Mae mân ail-gwmpasu i Waith Adnewyddu'r Awditoriwm wedi arafu'r cynnydd, gyda disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn canol mis Ionawr, a gallu cyrraedd y trothwy gwariant.	Mawrth 2027	Gorffennaf 2027
Padeswood, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail	5 Rhagfyr 2025	Bu oedi wrth ddatblygu'r rhaglen waith ac mae'r Achos Busnes Llawn gyda Trafnidiaeth Cymru a Network Rail bellach yn anelu at gael cymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2027.	Gorffennaf 2027	Tachwedd 2027

Mae'r holl brosiectau a nodir uchod yn mynd rhagddynt gyda'r gweithgareddau perthnasol sy'n ofynnol iddynt allu cyflwyno eu Hachosion Busnes Llawn i'r Is-bwyllgor i'w cymeradwyo. Mae'r oedi yn dangos cymhlethdod rhai o'r gweithgareddau hyn e.e. gwaith dylunio a chynllunio yn cymryd mwy o amser na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol yn hytrach nag unrhyw risg sylweddol i gyflawni'r prosiect. Mae'r dyddiadau estyniad arfaethedig yn rhoi amser rhesymol wrth gefn os bydd oedi pellach gyda'r dyddiad sydd dan sylw ar gyfer cyflwyno Achos Busnes Llawn ac yn ystyried y cyfnod cyn ac ar ôl yr etholiad yn 2027 a fydd yn effeithio ar allu'r Is-bwyllgor i wneud penderfyniadau.

5. Risgiau Allweddol

5.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru o'r farn y bydd angen rheoli'r risgiau allweddol canlynol yn ofalus gan Noddwyr y Prosiect yn ystod y cyfnod estynedig sydd ei angen i gwblhau a chyflwyno'r Achosion Busnes Llawn.

Risg	Disgrifiad o'r Effaith	Lliniaru / Gwrthfesurau
Rhaglenni	Gallai oedi wrth symud prosiectau ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn effeithio ar amserlenni cyflawni ac ar wireddu'r manteision a ragwelir.	Cynnal cyfarfodydd adolygu prosiect rheolaidd a cherrig milltir datblygu pendant i sicrhau bod Achosion Busnes Llawn yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno o fewn y cyfnod dilysrwydd estynedig.
Costau	Gall amserlenni datblygu a chyflawni estynedig arwain at gostau prosiect mwy oherwydd chwyddiant ac amodau'r farchnad sy'n newid.	Adolygu amcangyfrifon a rhagdybiaethau o ran costau yn barhaus wrth ddatblygu'r Achosion Busnes Llawn a diweddaru gwerthusiadau ariannol lle bo angen.
Amodau'r Farchnad a'r Gadwyn Gyflenwi	Gallai newidiadau yn amodau'r farchnad neu argaeledd y gadwyn gyflenwi effeithio ar fforddiadwyedd a chyflawnadwyedd prosiectau.	Ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad ac adolygu rhagdybiaethau caffael a chyflawni yn rheolaidd fel rhan o baratoi Achos Busnes Llawn.

6. Casgliadau

6.1. Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn argymell bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo ymestyn cyfnod dilysrwydd yr Achosion Busnes Amlinellol a gymeradwywyd ar gyfer y prosiectau a nodir yn yr adroddiad hwn. Bydd yr estyniad yn rhoi digon o amser i Noddwyr y Prosiectau gwblhau'r gwaith datblygu angenrheidiol a chyflwyno Achosion Busnes Llawn i'w hystyried, ac yn osgoi'r angen i gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol o'r newydd.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Ar hyn o bryd, mae'r holl weithgareddau caffael yn dangos bod modd cyflawni'r prosiectau o'r cyll-idebau a ddyrannwyd, ond mae'r oedi cynyddol wrth gwblhau cytundebau arian yn cynyddu'r risg o chwyddiant costau ac effeithiau ar y gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar ariannu a chyflawni pros-iectau. Os oes costau ychwanegol na ellir eu lliniaru, byddai angen bodloni'r rhain drwy'r Gronfa Chwyddiant Costau a gymeradwywyd yn flaenorol.

DOGFENNAU CEFNDIR *(ar gael ar gais)*

- Achosion Busnes Amlinellol ac Atodiadau

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwy'n nodi'r rhesymau dros yr estyniadau y gofynnwyd amdanynt a'r gofyniad parhaus i bob prosiect ddychwelyd i'r Is-bwyllgor i gymeradwyo ei Achos Busnes Llawn. Ar y sail honno, rwy'n fodlon â'r estyniadau arfaethedig i gyfnodau dilysrwydd yr Achosion Busnes Amlinellol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r penderfyniad a geisiwyd yn darparu dull pragmatig o ddatblygu'r prosiectau a bennwyd.

Mae Rhan 7 uchod yn nodi y gall yr oedi mewn datblygu arwain at gostau ychwanegol. Fodd bynnag, o safbwynt ariannol mae mesurau llywodraethu a rheoli clir ar waith i liniaru'r materion hyn, gan gynnwys y Gronfa Chwyddiant Costau."

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

13 Tachwedd 2026

TEITL:	Y Gronfa Twf Lleol yng Ngogledd Cymru – blaenoriaethau cychwynnol a'r camau nesaf
AWDUR:	Alwen Williams, Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru Iain Taylor, Rheolwr Rhaglen, Uchelgais Gogledd Cymru

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar y gwaith sy'n cael ei ddatblygu i sicrhau Cronfa Twf Lleol (LGF) ar gyfer Gogledd Cymru yn 2027/28 a 2028/29, a cheisio mewnbwn a chymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i gynigion sy'n dod i'r amlwg.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi'r gofyniad gan Lywodraeth Cymru am Gynllun Twf Rhanbarthol 10 Mlynedd a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i ryddhau cyllid o fis Ebrill 2027 ymlaen.

2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg fel y nodir yn adran 4.5 o'r adroddiad hwn, gan nodi bod y rhain yn parhau i gael eu drafftio a byddant yn cael eu cyflwyno eto i'w cymeradwyo yn ddiweddarach (gweler 2.6).

2.3 Gofyn i'r Prif Weithredwr gysylltu â Chyngor Gwynedd i gael trafodaethau gyda'r bwriad o gytuno ar drefniant comisiwn i ganiatáu i'r trefniadau rheoli hawliadau a gweinyddu rhaglenni presennol barhau ym Mlwyddyn 2 y rhaglen gyda threfniadau yn y dyfodol ar gyfer Blwyddyn 3 a thu hwnt i'w gwerthuso yn haf 2027.

2.3. Bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r meini prawf blaenoriaethu arfaethedig a nodir yn 4.6, a gofyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gymhwyso hyn, mewn ymgynghoriad â phob awdurdod lleol, i argymell dyraniadau dros dro yn y cynllun cyflawni, a ddaw yn ôl i'r pwyllgor hwn i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr (gweler 2.6).

2.4. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi egwyddorion allweddol y Cynllun Twf Rhanbarthol a Strwythur y Gronfa Twf Lleol fel y'u nodir yn Atodiadau B ac C, a gofyn i'r Prif Weithredwr, gan gweithio ochr yn ochr â swyddogion sefydliadau partner, barhau i ddatblygu'r rhain, a cheisio cadarnhad y bydd y dull hwn yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

2.5. Bod yr Is-bwyllgor yn gofyn i'r Prif Weithredwr ofyn am ddirprwyaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd, er mwyn i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd gymeradwyo cyflwyno'r Gronfa Twf Lleol i Lywodraeth Cymru yng nghanol mis Rhagfyr.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae tua £80 miliwn o gyllid (tua £40 miliwn y flwyddyn) ar gael ar gyfer y Gogledd ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 y Gronfa Twf Lleol, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i Uchelgais Gogledd Cymru baratoi Cynllun Twf Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni Blwyddyn 2 a 3 y Gronfa Twf Lleol a bod yn Gorff Atebol ar gyfer Rhaglen y Gronfa Twf Lleol ym Mlynyddoedd 2 a 3.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cronfa Twf Lleol y Llywodraeth yn gronfa tair blynedd, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru drwy ei Gynllun Buddsoddi LGF. Blwyddyn 1 yw'r flwyddyn ariannol gyfredol gyda Blwyddyn 2 (Ebrill 2027-Mawrth 2028) a Blwyddyn 3 (Ebrill 2028-Mawrth 2029). Bydd unrhyw gyllid ar ôl hynny yn dibynnu ar Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol.

4.2. O 2027-28, bydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid yn uniongyrchol i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy lythyrau cynnig grant blynyddol. Bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig wedyn yn arwain cynllunio rhanbarthol a dewis portffolio. Dyraniad dangosol y Gogledd yw £41.44m yn 2027–28 a £39.92m yn 2028–29. Mae pob blwyddyn yn cynnwys neilltuo cyfalaf ar draws Cymru gyda £5.37m ar gyfer y Gogledd. Mae'r cyllid hwn yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

4.3. Yn yr Is-bwyllgor ar 2 Hydref cytunwyd y byddai Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnal 'galwad am dystiolaeth' 4 wythnos gan sefydliadau partner, gan ofyn i bob partner nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer lleihau bylchau cynhyrchiant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn ardaloedd o amddifadedd a gwledig ledled y rhanbarth, a sut mae eu cynigion ar gyfer ymyrraeth yn cyd-fynd â fframwaith Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dod ag allbynnau o'r cam cychwynnol hwn o waith i'r Is-bwyllgor heddiw i'w hadolygu'n gychwynnol.

4.5. Cynllun Cyflawni Twf Lleol

4.5.1. Rhaid i fuddsoddiad LGF ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 gyd-fynd â thair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru: busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol; cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i weithio; a gwella seilwaith rhanbarthol. Rhaid i'r cynllun LGF esbonio sut mae ymyriadau yn mynd i'r afael â gwahanol anghenion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys yr ardaloedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Rhaid iddo hefyd ddangos y bydd cyllid LGF yn trosoli buddsoddiad preifat ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod effaith uniongyrchol, mesuradwy ar gynhyrchiant yn afrealistig. Fodd bynnag, mae'n disgwyl bod "edefyn aur" clir o weithgarwch rhanbarthol i'w flaenoriaethau ar gyfer twf cynhyrchiant ac ar gyfer ardaloedd sydd ar ei hôl hi i ddal i fyny.

4.5.2. Mae templed ar gyfer y Gronfa Twf Lleol wedi'i gynnwys yn Atodlen C.

Mae Tabl 1 yn dangos y dyraniadau i'r Gogledd ym Mlynyddoedd 2 a 3.

Tabl 1 Dyraniadau Blwyddyn 2 a 3 Gogledd Cymru			
£m	Blwyddyn 2 (2027–28)	Blwyddyn 3 (2028–29)	Cyfanswm dwy flynedd
Refeniw	12.9	11.4	24.4
Cyfalaf (rhanbarthol)	23.1	23.1	46.3
Is-gyfanswm rhanbarthol	**36.1**	**34.5**	**70.6**
Gwarchodaeth cyfalaf Cymru gyfan	5.4	5.4	10.7
Cyfanswm	**41.4**	**39.9**	**81.4**

Mae Tabl 2 yn dangos y bwriad i ddyrannu cyllid ar draws y Meysydd Blaenoriaeth ledled Cymru.

Tabl 2 – Dyraniadau ar draws Meysydd Blaenoriaeth – dangosol ledled Cymru						
£m	Refeniw Bl.2	Cyfalaf Bl.2	Cyfanswm Bl.2	Refeniw Bl.3	Cyfalaf Bl.3	Cyfanswm Bl.3
P1: Busnesau cynhyrchiol a chystadleuol	12.0	50.4	62.5	10.6	50.4	61.0
P2: Sgiliau a phobl i mewn i waith	36.1	13.3	49.4	31.9	13.3	45.1
P3: Seilwaith rhanbarthol	9.6	63.7	73.3	8.5	63.7	72.2
Gweinyddiaeth	2.4	5.3	7.7	2.1	5.3	7.4
Cyfanswm Cymru	**60.2**	**132.6**	**192.9**	**53.1**	**132.7**	**185.8**

4.5.2. Blaenoriaeth 1 – Busnesau Mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol

4.5.3. Yn ogystal ag ymyriadau cynhyrchiant unigol a nodir ym Mlaenoriaeth 2, mae LGF yn ymwneud â gyrru cynhyrchiant drwy gefnogi twf a buddsoddiad busnes, o ran eu hallbwn ond hefyd o ran eu cyflogaeth. Mae gan y rhaglen dri amcan: tyfu busnesau newydd potensial uchel, 'spinouts' a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli; cynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn busnesau sydd â photensial twf uchel; a chynyddu buddsoddiad mewn capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi, ecsbloetio a lledaenu ar draws busnesau a sefydliadau ymchwil. Y rhesymeg yw bod cwmnïau'n tyfu'n fwy cynhyrchiol drwy ehangu, allforio, arloesi a chyrraedd marchnadoedd newydd. Mae llawer yn wynebu rhwystrau wrth wneud hynny, yn enwedig mynediad at gyllid a chyngor arbenigol, ac yn hanesyddol mae Cymru wedi cael lefelau isel o fuddsoddiad cyfalaf gan y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae ymgysylltu â'r awdurdodau lleol partner wedi adnabod cynigion sy'n canolbwyntio ar fuddsoddiad busnes, creu swyddi a throsoledd y sector preifat. Maen nhw'n clystyru yn y pedair thema a ganlyn:

1. **Grantiau buddsoddi cyfalaf** – grantiau ar gyfer buddsoddiad busnesau bach a chanolig mewn offer, technoleg a chynhyrchiant.

2. **Cymorth i ddechrau busnesau a thwf busnesau** – rhaglenni cyngor a grantiau ar gyfer busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu.

3. **Gofod arloesi a deori** – yr Hwb Arloesi Busnes ac Ehangu BBaChau, sy'n gysylltiedig â cholegau, prifysgolion a chwmnïau angori, a gofod deori ac ymchwil a datblygu.

4. **Parodrwydd ar gyfer buddsoddiad mawr** – Rhaglen Parodrwydd Busnes yn paratoi busnesau lleol ar gyfer twf.

4.5.4. Blaenoriaeth 2 – Sgiliau a Chyflogadwyedd

4.5.5. Yn ystod mis Hydref, hwylusodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig weithdai gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol (RSP) a'i Gweithgor Cyflogadwyedd, gan ddod â chynrychiolwyr o Addysg Bellach ac Addysg Uwch, awdurdodau lleol, darparwyr cyflogadwyedd, Gyrfa Cymru, Busnes Cymru, DWP, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru at ei gilydd i ystyried y ddarpariaeth sgiliau a chyflogadwyedd bresennol ledled y Gogledd a phrofi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.

4.5.6. Tynnodd y trafodaethau sylw at bwysigrwydd adeiladu ar ddarpariaeth bresennol effeithiol, mynd i'r afael â bylchau ac osgoi dyblygu, tra'n sicrhau bod ymyriadau yn y dyfodol yn cael eu harwain gan gyflogwyr ac yn helpu mwy o bobl i gael mynediad i gyflogaeth a symud ymlaen o fewn cyflogaeth.

4.5.7. Roedd y Bwrdd hefyd yn cydnabod tirwedd gymhleth y ddarpariaeth sgiliau a chyflogadwyedd bresennol ledled y Gogledd, sy'n cynnwys ystod o raglenni, sefydliadau a ffrydiau ariannu. Er bod gweithgaredd sylweddol eisoes yn digwydd, gall y ddarpariaeth fod yn dameidiog, ac mae'n bwysig deall beth sydd ar gael, lle mae bylchau yn bodoli a lle gellir adnabod cyfleoedd i wella cydlynu neu ehangu dulliau llwyddiannus.

4.5.8. Dylai'r chwe blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol a restrir isod gyd-fynd â'r Cynllun Twf Rhanbarthol newydd a hefyd alinio â chyfeiriad a blaenoriaethau strategol Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru (2026–2029). Maent yn adlewyrchu ffocws y Cynllun ar gefnogi cyflogwyr i gael mynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt, galluogi i unigolion ddatblygu a symud ymlaen, a chryfhau'r cysylltiadau rhwng darparu sgiliau, cyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd rhanbarthol.

4.5.9. Cyflwynir y chwe blaenoriaeth isod ac nid ydynt wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn blaenoriaeth.

1. **Llwybrau cyflogaeth a phrofiad gwaith** – creu mwy o gyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir ennill profiad ymarferol a mynediad at gyflogaeth gynaliadwy, gan gynnwys lleoliadau, prentisiaethau a phrofiad gwaith.

2. **Creu cyfleoedd i gyflogwyr** – cefnogi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig a microfusnesau, i oresgyn rhwystrau recriwtio a chreu mwy o gyfleoedd drwy leoliadau, prentisiaethau a recriwtio cynhwysol, gan eu helpu i gael mynediad at gronfa ehangach o dalent.

3. **Ymyrraeth gynharach ac atal** – adnabod a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET, cryfhau pontio rhwng addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

4. **Cysylltu sgiliau â thwf economaidd** – alinio sgiliau a chymorth cyflogaeth gyda buddsoddiad rhanbarthol, prosiectau mawr a chyfleoedd gweithlu sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau bod pobl a busnesau lleol mewn sefyllfa well i elwa.

5. **Dilyniant y gweithlu** – helpu pobl sydd eisoes mewn cyflogaeth i ddatblygu eu sgiliau, symud ymlaen i rolau lefel uwch a gwella eu potensial i ennill, tra'n cefnogi busnesau i gadw talent a gwella cynhyrchiant.

6. Cadw talent – gwella cyfleoedd gyrfa yn y Gogledd i bobl ifanc, graddedigion a phobl â sgiliau lefel uwch, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr lleol.

4.5.10. Yn ystod y gweithdy, adnabuwyd y grwpiau a ganlyn fel rhai sydd angen ystyriaeth benodol wrth ddatblygu ymyriadau yn y dyfodol o dan Flaenoriaeth 2 LGF:

- Pobl ifanc 16-24 oed, gan gynnwys y rhai sy'n NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET.
- Unigolion economaidd anweithgar a phobl sy'n ceisio mynd i mewn neu ddychwelyd i gyflogaeth.
- Unigolion sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys pobl anabl ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl sy'n gadael gofal a gofalwyr ifanc.
- Unigolion, gan gynnwys israddedigion a graddedigion, sydd heb brofiad gwaith perthnasol neu nad ydynt yn barod i'r gweithle.
- Pobl sydd eisoes mewn cyflogaeth a fyddai'n elwa o gyfleoedd datblygu sgiliau a dilyniant.

4.5.11. Roedd y Bwrdd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig a micro-fusnesau, ochr yn ochr â busnesau mewn sectorau sy'n profi heriau recriwtio a sgiliau.

4.5.12. Mewn perthynas â chymorth cyflogadwyedd, mae'r ddarpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn destun adolygiad ar hyn o bryd a bydd yn ystyriaeth yn y dyfodol.

4.5.13. Blaenoriaeth 3 – Safleoedd ac Adeiladau

4.5.14. Mae diffyg safleoedd masnachol a chyflogaeth sydd ar gael yn rhwydd wedi'i nodi fel rhwystr allweddol i dwf economaidd ar draws y rhanbarth. Mae costau datblygu gwaharddol ar gyfer adfer, seilwaith safle a gwell hygyrchedd trafnidiaeth, yn creu bylchau hyfywedd sy'n golygu na all y safleoedd hyn ddod ymlaen heb fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus. Bydd buddsoddi mewn safleoedd strategol ar raddfa fawr sy'n denu ac yn galluogi ehangu busnes yn cael effaith sylweddol ar y rhanbarth.

Mae cymorth refeniw wedi'i ddyrannu i gefnogi dichonoldeb, achos busnes, datblygu prosiectau a chostau cynllunio (camau gwaith RIBA 1-4).

Mae'r cynigion a dderbyniwyd hyd yma yn cynnwys 36 o gynigion Blaenoriaeth 3, yn bennaf o Wrecsam (18), Sir Ddinbych (9) a Chonwy (6). Mae chwe thema gyffredin yn dod i'r amlwg:

1. Safleoedd cyflogaeth strategol – galluogi gwaith i ddatgloi tir cyflogaeth, gan gynnwys cyfleustodau, carthffosiaeth, mynediad a lliniaru ecolegol a ffosfforws ar gyfer safleoedd Ystad Ddiwydiannol a Pharth Buddsoddi Wrecsam, Parc Busnes Rhiwabon a Phorth y Gorllewin (Wrecsam); tir cyflogaeth ar draws Ynys Môn (Ynys Môn); a Thir Llwyd, Bae Cinmel a De-ddwyrain Abergele (Conwy).
2. Adeiladau busnes a gofod tyfu – adeiladau BBaCh modern (Wrecsam), gofod tyfu Parc Busnes Llanelwy ac uwchraddio unedau diwydiannol y cyngor (Sir Ddinbych), a Hwb Entrepreneuraidd Bodlondeb (Conwy).

3. **Adfywio canol trefi** – dod ag eiddo gwag a heb ei ddefnyddio yn ôl i ddefnydd yn y Rhyl a Dinbych (Sir Ddinbych), Bae Colwyn (Conwy), Caergybi (Ynys Môn) a chanol dinas Wrecsam.
4. **Asedau ymwelwyr, treftadaeth a diwylliannol** – Canolfan Ranbarthol Eirias a Chladdgelloedd Llandudno (Conwy); Moel Famau, Parc Bodelwyddan, LIME, safleoedd treftadaeth sirol a chynllun ar y cyd Safle Treftadaeth y Byd (Sir Ddinbych); a Dinas Diwylliant 2029, lleoliad cerddoriaeth a gofod stiwdio artistiaid (Wrecsam).
5. **Trafnidiaeth a Mynediad** – seilwaith bysiau (Sir y Fflint, Wrecsam), gorsaf fysiau Wrecsam, a chysylltiadau bysiau, teithio llesol a chysylltiadau milltir olaf rhwng cymdogaethau blaenoriaeth a safleoedd cyflogaeth (Wrecsam).
6. **Seilwaith ynni a digidol** – cysylltiad â'r grid, ynni adnewyddadwy a storio, gan gynnwys prif is-orsaf newydd ar gyfer coridor Gwenfro, a mannau du band eang a symudol (Wrecsam); a solar ffotofoltäig ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer unedau'r cyngor (Sir Ddinbych).

4.6 Meini prawf blaenoriaethu ar gyfer prosiectau cyfalaf

4.6.1. Pwrpas

Mae'n ofynnol i Gynllun Cyflawni LGF gynnwys dull cyson a thryloyw i adnabod y prosiectau mwyaf addas ar gyfer buddsoddiad gan LGF. Mae'r meini prawf blaenoriaethu yn caniatáu asesu pob cynnig prosiect yn erbyn amcanion y Cynllun Twf Rhanbarthol, yn enwedig sut mae prosiectau'n gwneud cyfraniad amlwg at gynhyrchiant lleol a rhanbarthol, amddifadedd lleol ac anghydraddoldeb economaidd. Bydd prosiectau'n cael eu hasesu ar lefel leol i sicrhau bod buddsoddiad a gweithredu i ysgogi cynhyrchiant a lleihau amddifadedd ledled y Gogledd, gan godi mesurau lleol a chau'r bwlch rhwng y lefelau isaf ac uchaf o allbwn economaidd.

4.6.2. Gofynion y Gronfa Twf Lleol

Mae'r meini prawf wedi'u tynnu o Gynllun Buddsoddi LGF Llywodraeth Cymru a'r fframwaith RGP drafft:

- **Cynhyrchiant:** mae'r Gronfa yn fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn twf cynhyrchiant, gan dargedu lleoedd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer twf a gweithio drwy fuddsoddiad busnes, ymchwil, datblygu ac arloesedd, sgiliau, safleoedd ac adeiladau, cysylltedd ac ynni.
- **Amddifadedd ac anghydraddoldeb:** nod y Gronfa yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd mewn ardaloedd difreintiedig. Mae WIMD yn cario rhan helaeth o'r dyraniad rhanbarthol, a disgwylir i ranbarthau ddangos sut mae ymyriadau yn cefnogi'r ardaloedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf neu ddiffyg buddsoddiad.
- **Natur wledig ac ymylol:** mae natur wledig yn cario rhan o'r dyraniad, gan gydnabod y rhwystrau sy'n wynebu lleoedd heb gydgrynhoi.
- **Themâu trawsbynciol:** mae cydraddoldeb, hinsawdd a lles, gyda'r Gymraeg, i'w hintegreiddio ym mhob buddsoddiad.
- **Trosoledd ac ychwanegoldeb:** dylai rhanbarthau ysgogi buddsoddiad preifat, llenwi bylchau buddsoddi ac osgoi dyblygu rhaglenni eraill.
- **Cyflawni:** rhaid cyflawni gwariant o fewn y ddwy flynedd ariannol, gyda chofrestrau risg ar waith.
- **RGP addas:** edefyn aur o bob prosiect i'r saith amcan RGP drafft (O1–O7), sy'n trosi'r nodau llesiant yn amcanion economaidd.

4.6.3. **Strwythur Blaenoriaethu Arfaethedig**

Mae'n ofynnol i ni nodi dull o flaenoriaethu o ystyried bod mwy o gynigion prosiect y gellir eu fforddio gan y cyllid LGF presennol sydd ar gael. Bydd fframwaith llawn sy'n nodi'r sail ar gyfer sgorio yn cael ei baratoi a'i gytuno ag ALlau partner a Llywodraeth Cymru. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru a'r ALlau yn cymhwyso'r meini prawf blaenoriaethu mewn ffordd bragmatig a chymesur i alluogi adnabod prosiectau yn gyflym a chymhwyso'r broses naill ai o fewn ALlau neu gan Uchelgais Gogledd Cymru. I nodi'r dull cyffredinol, mae'r strwythur arfaethedig ar gyfer y broses flaenoriaethu yn ystyried y camau a ganlyn:

Cam 1 - Porth
Meini prawf llwyddo/methu i sicrhau bod yr holl brosiectau a aseswyd yn addas ar gyfer buddsoddiad LGF. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys:

- Cyd-fynd ag Amcanion LGF
- Cyd-fynd ag Amcanion RGP
- Gall ysgwyddo gwariant ym Mlwyddyn 2 neu Flwyddyn 3
- Cadarnhau gwariant cyfalaf
- Cydymffurfio â'r Cynllun Rheoli Cymhorthdaliadau (i'w ddatblygu)
- Yn amlwg yn ychwanegol ac ni ddisgwylir iddynt ddigwydd fel arall
- O fudd lleol, ar draws ffin ALl neu ranbarthol

Cam 2 - Asesu
Bydd yr asesiad manwl yn cael ei ddatblygu cyn cyfarfod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ym mis Rhagfyr ac yn argymell dyraniadau sgorio a'r sail ar gyfer y sgoriau a ddyfarnwyd. Ar y cam hwn, rydym yn disgwyl i'r meini prawf asesu gwmpasu'r meysydd a ganlyn:

- **Cynhyrchiant,** gan gynnwys graddfa'r allbynnau a'r canlyniadau
- **Amddifadedd a Chynhwysiant**, buddion i gymunedau difreintiedig, cynhwysiant a mynediad at waith a mynd i'r afael â rhwystrau i fuddsoddi
- **Aliniad strategol**, cyfraniad at amcanion RGP ac addasrwydd strategol lleol
- **Effeithiau ehangach,** Hedd Vaughan-Evans (Uchelgais GC | Ambition NW)2026-11-04T09:23:00HNcyfraniad at yr hinsawdd, yr amgylchedd, diwylliant ac iaith
- **Cyflawnadwyedd**, parodrwydd, proffil gwariant a risgiau
- **Gwerth am arian, ychwanegoldeb a chyd-fuddsoddi**, a bennir yn lleol yn hytrach nag yn rhanbarthol

4.7 Cyflawni a Gweinyddu

4.7.1. Mae trefniadau manwl yn dal i gael eu datblygu, ond disgwylir i'r gyllideb weinyddu, gan gynnwys llog cronedig, fod yn ddigonol i gynnal cyllid ar gyfer gweinyddu rhaglenni, rolau gweinyddu cronfeydd lleol awdurdodau lleol a rôl rheoli rhaglenni'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn amodol ar gytundeb terfynol ar rolau a chyfrifoldebau Blwyddyn 2.

4.7.2. Y bwriad, fel yr amlinellir yn Nhabl 3 isod, yw cadw'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cydlynu rhanbarthol a'r cynghorau partner ar gyfer cydlynu lleol. Bydd y cynnydd yn lefel y weinyddiaeth yn creu lle i gefnogi rôl gyflawni'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Y bwriad yw

archwilio a pharatoi trefniant 'comisiwn' i ganiatáu parhad llyfn y rhaglen LGF i Flwyddyn 2. Mae modelau cyflawni amgen wedi'u hystyried ond ni ellir gweithredu unrhyw un mewn pryd i ganiatáu ar gyfer dechrau Blwyddyn 2 ar 1 Ebrill.

Tabl 3 – Trosolwg o'r dyraniadau cyllid dangosol			
£000	Blwyddyn 2: 2027–28	Blwyddyn 3: 2028–29	Cyfanswm
Cyfanswm y dyraniad rhanbarthol	**41,443**	**39,920**	**81,363**
Gweinyddiaeth (4%)	**1,658**	**1,597**	**3,255**
Gweinyddiaeth awdurdodau lleol, gwireddu buddion, monitro perfformiad, cyswllt â rhanddeiliaid, cymorth prosiectau	799	799	1,598
Rheoli Rhaglenni (CG + UGC) Cynyddu gwireddu buddion rhanbarthol, cefnogi prosiectau	859	798	1,657
Cyflawni Refeniw (26%)	**10,775**	**10,379**	**21,154**
Rhaglen sgiliau a chyflogadwyedd ranbarthol Sgiliau: tuag at raglen ranbarthol, Cyflogadwyedd tuag at gyflawni lleol. Gwaith pellach i ystyried elfen cymorth refeniw i fusnesau.	9,500	9,500	20,000
Cyn-ddatblygu a dichonoldeb	1,275	879	2,154
Cyfalaf Cyflawni (70%)	**29,010**	**27.944**	**56,954**
Cyfalaf ar gyfer prosiectau, cymorth busnes a sgiliau	23,638	22,572	46,211
Gwarchodaeth cyfalaf Cymru gyfan	5,372	5,372	10,743
Cyfanswm	**41,443**	**39,920**	**81,363**

4.8. Cynllun Twf Rhanbarthol

4.8.1. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig osod cynllun sy'n dadansoddi cryfderau, cyfleoedd ac anghenion hirdymor, ac yn nodi gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer twf. Dylai'r weledigaeth honno gwmpasu pob cyfle twf sylweddol, nid cronfeydd LGF yn unig.

4.8.2. Rydym yn datblygu Fframwaith Strategol y Cynllun Twf Rhanbarthol sy'n anelu at osod y sylfeini allweddol ar gyfer y Cynllun Twf 10 Mlynedd. Rydym yn bwriadu profi drafftiau sy'n dod i'r amlwg gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd hyn yn ddigonol i sicrhau eu cymeradwyaethau. Byddai ein dull arfaethedig yn caniatáu i'r Cynllun Twf 10 Mlynedd ffurfiol gael ei ddatblygu, gydag ymgynghoriad cyhoeddus yn Haf 2027, i'w gymeradwyo'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn Hydref 2027.

4.8.3. Rydym wedi dechrau gweithio ar Fframwaith Strategol RGF. Mae trosolwg o'r ddogfen waith wedi'i nodi yn Atodiad B i roi syniad o gyfeiriad y teithio. Bydd drafft mwy terfynol yn cael ei rannu gyda'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ym mis Rhagfyr.

5. CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL A'R AMSERLEN

5.1. Gofynnir i'r Is-bwyllgor nodi ein bod bellach yn gweithio i amserlen gyflym i sicrhau cymeradwyaethau amserol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn anelu at gymeradwyo ym mis Rhagfyr, sy'n hanfodol i sicrhau dyraniad 2027-28.

Tabl 4 – Cerrig Milltir Allweddol	
Dyddiad	**Carreg Filltir**
20 Tachwedd	Ceisio cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddirprwyo cymeradwyaeth o'r ddogfen LGF i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd
11 Rhagfyr	Ceisio cymeradwyaeth gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i'r Cynllun Cyflawni Twf Lleol ar gyfer 2027/28 a 2028/9 a 'Tuag at Gynllun Twf Rhanbarthol'
Chwefror – Mawrth 2027	Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn cytuno ar y cynllun; Cynnig grant 2027–28. Cadarnhau trefniadau cyflawni, gan gynnwys rhaglenni rhanbarthol a'r broses ar gyfer asesu a sicrhau prosiectau cyfalaf. Bydd y broses nodi, cynnig ac asesu prosiectau yn cael ei rhedeg yn y cyfnod hwn ar gyfer prosiectau sy'n barod i ddechrau ar Ebrill 1, 2027. Bydd dirprwyaeth yn cael ei geisio gan yr Is-Bwyllgor i ganiatáu i benderfynu ar brosiectau a gefnogir neu a gefnogir gan ALl a all ddechrau ar unwaith i sicrhau bod risgiau cyflawni yn cael eu rheoli.
Ebrill 2027	Partneriaeth LGF dan arweiniad y CBC gyda ALl yn cyflawni yn dechrau
2027–28 ymlaen	Adolygiadau chwe mis gan Lywodraeth Cymru; mae'r cynllun 10 mlynedd yn cael ei adolygu a'i adnewyddu ochr yn ochr ag Adolygiadau Gwariant y DU yn y dyfodol

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi derbyn dyfarniad grant o £200,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2026/27 i gynhyrchu'r Cynllun Twf Rhanbarthol a chefnogi'r trefniadau meithrin capasiti a phartneriaeth sydd eu hangen er mwyn paratoi i'w weithredu o fis Ebrill 2027 ymlaen.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Mae'r goblygiadau cyfreithiol ar hyn o bryd yn gyfyngedig. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i barhau i ddatblygu cynigion ar gyfer Cynllun Twf Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Lleol ac nid yw'n cymeradwyo'r cynlluniau terfynol, y prosiectau unigol na'r dyfarniadau cyllid. Bydd derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, cymeradwyo cynlluniau ac wedyn penderfyniadau dilynol ar brosiectau neu gyllid angen yr awdurdod priodol sy'n gwneud penderfyniadau a chyngor cyfreithiol ac ariannol pellach.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwy'n nodi'r cynigion sy'n dod i'r amlwg a'r gwaith pellach sydd ei angen cyn i Gynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Leol a'r Cynllun Twf Rhanbarthol gael eu cwblhau. Rwy'n fodlon â'r argymhellion, gan nodi y bydd cymeradwyaeth arfaethedig y cyflwyniad ym mis Rhagfyr gan yr Is-bwyllgor yn amodol ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn rhoi'r

ddirprwyaeth angenrheidiol ar 20 Tachwedd. Bydd unrhyw benderfyniadau prosiect a chyllid dilynol yn parhau i fod angen y trefniadau cymeradwyaeth a sicrwydd priodol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Mae'r penderfyniadau a geisir yn ateb pragmatig i ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thwf ar draws y rhanbarth. Gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf, mae gwaith wedi'i wneud i nodi prosiectau lle gall y gwariant hwn ddigwydd cyn diwedd mis Mawrth 2029. Er y gall hyn fod yn heriol o fewn yr amserlen, bydd gallu profedig y rhanbarth i weithio gyda'i gilydd ar gynlluniau diweddar fel Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhoi hyder y bydd y llywodraethu ariannol cadarn yn parhau."

Atodiad A – Blaenoriaethau ac Acmvanion y Gronfa Twf Lleol

Cynllun Buddsoddi Y Gronfa Twf Lleol: Cymru

Blaenoriaeth 1: Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol

Amcan 1.1: Creu a thyfu busnesau newydd uchel eu potensial, cwmnïau deillio a mentrau cymdeithasol - gan gynnwys gan grwpiau sydd â chynrychiolaeth annigonol.

Amcan 1.2: Cynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn darpar fusnesau twf uchel i gefnogi twf cynhyrchiant

Amcan 1.3: Cynyddu lefelau buddsoddiad mewn capasiti RD&I, manteisio a lledaenu mewn busnesau a sefydliadau ymchwil

Blaenoriaeth 2: Cynyddu sgiliau a chefnogi pobl i mewn i waith

Amcan 2.1: Lleihau lefelau anweithgarwch economaidd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, yr anabl, menywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

Amcan 2.2: Gwella sgiliau'r gweithlu trwy addysg a hyfforddiant hyblyg, sy'n seiliedig ar alw ac sy'n cyd-fynd ag anghenion sectorau twf uchel a phwysig o safbwynt rhanbarthol

Blaenoriaeth 3: Gwella seilwaith rhanbarthol

Amcan 3.1: Datgloi buddsoddiad mewn safleoedd ac adeiladau strategol

Amcan 3:2: Buddsoddiad cyfalaf yn cyd-fynd â Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol

Amcan 3.3: Buddsoddiad cyfalaf yn cyd-fynd â chynlluniau / strategaethau ynni rhanbarthol

Atodiad B - Fframwaith Strategol y Cynllun Twf Rhanbarthol

1 Tachwedd 2026

Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru (RGP) yn gosod cyfeiriad deng mlynedd ar gyfer yr economi rhanbarthol rhwng 2027 a 2037. Wedi'i baratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r chwe chyngor, mae'n bodloni gofyniad Cynllun Buddsoddi'r Gronfa Twf Leol ar gyfer gweledigaeth ranbarthol hirdymor a bydd yn cynnwys Cynllun Cyflawni LGF fel atodiad. Mae'n adeiladu ar Weledigaeth Twf Gogledd Cymru, y Cynllun Twf a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, ac mae wedi'i drefnu o amgylch saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gogledd Cymru sy'n arwain rhanbarthau Cymru ar y rhan fwyaf o'r prif fesurau. Roedd GVA y pen yn 76.8% o'r DU yn 2023, a thyfodd GVA gwirioneddol gan 12.0% dros 2015–23 o'i gymharu â 7.6% yng Nghymru. Ond mae'n ddau economi: Sir y Fflint (104.3) a Wrecsam (99.0) yw'r awdurdodau mwyaf cynhyrchiol yng Nghymru, tra bod Gwynedd (69.9) a Chonwy (67.2) yn 20fed ac 21ain o 22. Mae gostyngiad yn y boblogaeth o oedran gweithio, cyfradd NEET o 15.1% ymhlith pobl ifanc 16–24 oed ac anweithgarwch economaidd o 22.9% yn golygu mai pobl a sgiliau bellach yw'r prif gyfyngiadau ar dwf.

Gweledigaeth ar gyfer 2037

Erbyn 2037 bydd Gogledd Cymru yn rhanbarth hyderus, cynhyrchiol a chysylltiedig, gan arwain trawsnewidiad ynni glân a gweithgynhyrchu uwch y DU. Rhanbarth sy'n cadw ac yn denu talent, yn hyrwyddo'r Gymraeg
a'r diwylliant Cymreig, a lle mae manteision twf yn cyrraedd pob cymuned.

Mae'r weledigaeth yn cadw hunaniaeth sefydledig Craff, Gwydn a Chysylltiedig y rhanbarth ac yn ychwanegu pedwaredd thema, Cynaliadwy a gwreiddiau, sy'n adlewyrchu ffocws economi llesiant y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol. Mae'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i haneru'r bwlch cynhyrchiant rhwng Cymru a gweddill y DU dros y deng mlynedd nesaf, a dau ganlyniad LGF sef incwm gwirioneddol aelwydydd a GDP y pen uwch.

Amcanion strategol

Mae saith amcan, un ar gyfer pob nod llesiant, yn troi'r weledigaeth yn flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi (Tabl ES1). Mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â phrif fesur ac ag amcanion LGF y mae'n tynnu arnynt, a gyda'i gilydd maent yn ffurfio'r model rhesymeg a fydd yn llywio blaenoriaethu yng Nghynllun Cyflawni LGF.

Tabl ES1 – Amcanion strategol y Cynllun Twf Rhanbarthol		
Amcan	**Nod llesiant**	**Sut beth yw llwyddiant erbyn 2037**
01 Cynhyrchiant: Cynyddu cynhyrchiant a chau'r bwlch o fewn y rhanbarth	Cymru lewyrchus	GVA yr awr yn codi gyflymaf yng Nghonwy a Gwynedd, a'r bwlch mewnol yn culhau
02 Carbon isel: Adeiladu economi carbon isel o fewn terfynau amgylcheddol	Cymru gydnerth	Mwy o gwmnïau lleol yn ennill contractau ynni glân, a mwy o gynhyrchu lleol

03 Gwaith da: Sicrhau canlyniadau economaidd a chymdeithasol o'r sector iechyd a gofal a lleihau anweithgarwch economaidd	Cymru iachach	Llai o bobl anweithgar oherwydd salwch hirdymor
04 Cyfle: Ymestyn cyfleoedd economaidd i leoedd difreintiedig a phobl ifanc	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cyfradd NEET sy'n gostwng, incwm aelwydydd uwch a thlodi plant is
05 Lleoedd: Creu lleoedd cysylltiedig, y gellir byw ynddynt gyda chartrefi i bawb	Cymru o gymunedau cydlynus	Mwy o aelwydydd o fewn awr o swyddi allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus
06 Gwledig a Chymraeg: Tyfu economi wledig, arfordirol ac economi Gymraeg gryfach	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Y boblogaeth oedran gweithio yn sefydlogi yn y gorllewin
07 Byd-eang: Cystadlu'n fyd-eang trwy fasnach, arloesi a gwaith teg	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cynnydd mewn cyfraddau geni menter a buddsoddiad mewn Ymchwil ac Arloesi

Gyrwyr Twf Allweddol

Mae Gogledd Cymru yn cynnal set o brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol a allai gyda'i gilydd gefnogi ymhell dros 10,000 o swyddi adeiladu a swyddi parhaol dros y degawd, ledled Gogledd Cymru.

Mae'r cynllun yn adnabod pum gyrrwr twf allweddol:

Niwclear: Mae Wylfa wedi cael ei ddewis ar gyfer adweithyddion modiwlaidd bach cyntaf y DU, gyda hyd at 3,000 o swyddi lleol ar y cyfnod adeiladu brig a chadwyn gyflenwi a sylfaen sgiliau a fydd yn para degawdau.

Ynni gwynt ar y môr a morol: Mae Awel y Môr, Mona, llanw Morlais a'r porthladdoedd yng Nghaergybi a Mostyn yn cynnig cyfleoedd adeiladu, gweithrediadau a chynnal a chadw, a chadwyn gyflenwi ar hyd yr arfordir.

Gweithgynhyrchu uwch: eisoes yn 24.5% o GVA rhanbarthol ac yn tyfu, wedi'i angori gan Airbus Brychdyn, AMRC Cymru a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gwerth £160m.

Creadigol, diwylliant a chwaraeon: gwerth £639m gan gynnwys digidol, gyda sylfaen sgrin Gymraeg nodweddiadol, tri Safle Treftadaeth y Byd a phroffil chwaraeon a digwyddiadau rhyngwladol.

Digidol ac AI: y Parth Twf AI yn Prosperity Parc a Thrawsfynydd, gyda disgwyl tua 3,450 o swyddi, gan baru canolfannau data â phŵer glân a chefnogi mabwysiadu AI ar draws yr economi.

Mae pedwar sector sylfaenol (twristiaeth a'r economi ymwelwyr, amaethyddiaeth a bwyd, gofal ac iechyd, a thai ac adeiladu) yn cyflogi llawer mwy o bobl a byddant yn penderfynu a yw cymunedau ledled y rhanbarth yn rhan o'r twf hwn. Y prawf ar gyfer pob sector yw nid yn unig twf, ond a yw'n codi cynhyrchiant yn y gorllewin ac yn cysylltu cymunedau difreintiedig a phobl ifanc â swyddi.

Bydd y fframwaith yn cael ei brofi gyda phartneriaid cyn ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2027.

Atodiad C Templed Cynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Leol

Disgwylir i'r Cynllun Cyflawni'r Gronfa Twf Leol gael ei strwythuro fel a ganlyn:

1. Cyflwyniad a Phwrpas
   Trosolwg o beth yw'r Cynllun Cyflawni a beth mae'n ei gwmpasu. Bydd yn esbonio sut y cafodd ei ddatblygu a'i berthynas â'r Cynllun Twf Rhanbarthol.

2. Cyd-destun strategol a thystiolaeth
   Gwybodaeth a thystiolaeth am yr economi ranbarthol, y cyd-destun partneriaeth a chyflawni, cryfderau a chyfleoedd a'r dirwedd fuddsoddi ehangach.

3. Amcanion a'r model rhesymeg
   Perthynas ag Amcanion y Cynllun Twf Rhanbarthol a'r model rhesymeg sy'n dangos y dilyniant o strategaeth ac ymyrraeth i allbynnau ac effeithiau.

4. Cyllid a phroffil ariannol
   Cyllidebau dangosol a meysydd buddsoddi

5. Blaenoriaethau ac ymyriadau buddsoddi
   Trosolwg o'r rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd rhanbarthol a'r safleoedd allweddol. Ystyried cyfleoedd Cymru gyfan.

6. Piblinell prosiect a blaenoriaethu
   Trosolwg o'r broses flaenoriaethu, meini prawf a phiblinell.

7. Trefniadau cyflawni a llywodraethu
   Rolau, cyfrifoldeb a threfniadau gwneud penderfyniadau a'r dyraniadau adnoddau.

8. Monitro, gwerthuso ac adrodd
   Allbynnau a thargedau canlyniadau, penawdau a chylchoedd adrodd.

9. Rheoli Risg
   Strategaeth rheoli risg a'r Gofrestr Risg.

10. Cydymffurfio â chanllawiau a rheoliadau
    Asesu'r Cynllun Cyflawni yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru.

11. Amserlen a cherrig milltir
    Rhaglen a cherrig milltir allweddol.

Is-bwyllgor Lles Economaidd
13eg Tachwedd 2026

TEITL: Datganiad o ddiddordeb effaith uchel – Prosiect Dinas Utopia

AWDUR: Hedd Vaughan-Evans, Cyfarwyddwr Portffolio

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad i'w i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer prosiect Dinas Utopia.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn derbyn Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y prosiect Dinas Utopia ac yn ei wahodd yn ffurfiol i ymuno a'r rhestr wrth gefn.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i'r prosiect Dinas Utopia ymuno a'r rhestr wrth gefn.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni buddsoddiad trawsffurfiol o £1 biliwn i economi gogledd Cymru. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd gan hefyd fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hirdymor i gyflawni twf cynhwysol.

4.2. Yn unol â chytundeb terfynol y Cynllun Twf, caiff achosion busnes eu datblygu ar gyfer pob prosiect o fewn y Cynllun Twf, yn unol â'r canllawiau 'Gwell Achos Busnes' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EF. Mae pob achos busnes yn cynnwys pum achos a fydd yn rhoi sylw i gwestiynau allweddol, a dylid eu cefnogi gan weithdai. Mae'r canllawiau yn caniatáu i Achosion Cyfiawnhad Busnes un cam gael eu defnyddio ar gyfer prosiectau o werth a risg isel-canolig.

4.3. Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd (rôl y Bwrdd Uchelgais Economaidd gynt) yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn arianwyr y Cynllun Twf sy'n cadw rôl i gymeradwyo'r broses sicrwydd y mae pob prosiect wedi ymgymryd â hi. Bydd y broses sicrwydd y bydd y prosiectau'n ymgymryd â hi wedi'i chynnwys yn yr holl adroddiadau i'w hystyried.

4.4. Cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd Strategaeth ar gyfer Gweddill Cyllid y Cynllun Twf sydd heb ei Ddyrannu yn Hydref 2026. Roedd y strategaeth yn cynnwys £8m o gyllid ar gael ar gyfer y Rhestr wrth Gefn ar gyfer cefnogi cyflawni prosiectau effaith uchel yn unig. Mae'r criteria effaith uchel yn nodi fod angen i 16 o swyddi net gael ei creu i bob £1m o gyllid y Cynllun Twf fuddsoddir neu £4.5m o arian cyfatebol fesul £1m y fuddsoddir.

4.5. Cafodd galwad agored drwy'r chwe awdurdod lleol ei agor ar gyfer prosiectau Rhestr wrth gefn newydd i gael ei enwebu drwy'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb blaenorol lle roedd y prosiectau yn cwrdd a'r criteria effaith uchel ar swyddi neu buddsoddiad.

4.6. Hyd yma derbyniwyd un datganiad o ddiddordeb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y prosiect Dinas Utopia, sydd wedi ei adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ac yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried i fod yn rhan o'r rhestr wrth gefn. Mae'r alwad agored drwy'r awdurdodau leol yn parhau i fod ar agor, ac bydd ar agor hyd nes y bydd gweddill cyllid y Cynllun Twf wedi cael ei ddyrannu.

4.7. CRYNODEB O BROSIECT DINAS UTOPIA

4.7.1. Mae prosiect Dinas Utopia yn gampws cyflogaeth graddol arfaethedig i'r gogledd o Bryn Lane, ger Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam, ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam. Mae cam cyntaf y prosiect yn ceisio £5 miliwn o Gynllun Twf Gogledd Cymru ochr yn ochr â £5 miliwn o'r Parth Buddsoddi, gan ffurfio cyfraniad cyhoeddus o £10 miliwn tuag at gyfleustodau, draenio, paratoi safle a isadeiledd mynediad. Byddai'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â chyfyngiadau isadeiledd a hyfywedd a fyddai fel arall yn oedi ac yn cyfyngu ar ddatblygiad.

4.7.2. Ochr yn ochr a'r arian cyhoeddus mae buddsoddiad preifat arfaethedig sylweddol yng ngham cychwynnol y prosiect a fyddai'n datgloi oddeutu 15 erw o dir cyflogaeth â gwasanaeth ac yn darparu 128,101 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr diwydiannol modern ar draws Unedau 3–6, gan dargedu meddianwyr gweithgynhyrchu uwch. (Mae manylion llawn y prosiect wedi cynnwys yn atodiad 1 sydd yn eithriedig)

4.7.3. Mae'r prosiect wedi'i asesu ac mae'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhestr wrth gefn (y dylid creu 16 o swyddi net fesul £1m yn y Cynllun Twf a fuddsoddwyd neu £4.5m o arian cyfatebol fesul £1m a fuddsoddwyd):

- Creu 298 o swyddi net (uniongyrchol ac anuniongycrhol) – Mae hyn yn cyfateb i 29.8 o swyddi fesul £1m o gyllid cyhoeddus, sy'n sylweddol uwch na'r meini prawf effaith uchel.
- Cyfanswm buddsoddiad o £41.56 – Mae hyn yn cyfateb i £4.1m fesul £1m o arian cyhoeddus fuddsoddir, dim ond ychydig yn is na'r meini prawf effaith uchel ar gyfer buddsoddiad.
- Mae'r cais cynllunio llawn (hybrid) eisoes wedi'i gyflwyno (2023). Mae'r penderfyniad, gyda phenderfyniad i ganiatáu, wedi'i dargedu ar gyfer Rhagfyr 2026, gyda'r cytundeb Adran 106 i'w gwblhau yn Chwarter 1 2027.

4.7.4. Ar sail y metrig swyddi fesul £1m, mae'r prosiect yn bodloni'r meini prawf effaith uchel ac mae'n cael ei argymell i'w gynnwys ar y rhestr wrth gefn. Nid yw gwahodd y prosiect i ymuno â'r rhestr wrth gefn yn cynrychioli penderfyniad i ariannu'r prosiect ond mae'n rhoi cyfle i noddwr y prosiect gyflwyno achos busnes i'w ystyried gan yr Is-bwyllgor yn y dyfodol yn unol â'r broses sicrwydd a chymeradwyo arferol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid yw'r penderfyniadau yn yr adroddiad hwn yn ymrwymo'r Is-bwyllgor i wario unrhyw gyllid Cynllun Twf. Pe bai'r Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad o ddiddordeb ac yn gwahodd y prosiect i ymuno â'r rhestr wrth gefn, byddai rhyddhau cyllid yn y dyfodol yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes gan yr Is-bwyllgor yn unol â'r broses sicrwydd a chymeradwyo y cytunwyd arno.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r dull arfaethedig yn unol a'r strategaeth gymeradwywyd gan yr Is-Bwyllgor yn Hydref 2026, sydd yn unol â gofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Mae pob cymeradwyaeth wedi hynny yn ddarostyngedig i'r broses sicrwydd a chymeradwyo arferol ar gyfer prosiectau'r Cynllun Twf.

6.2. Fel gyda pob prosiect Cynllun Twf, fel rhan o'r broses achosion busnes mae'n rhaid i bobl prosiect ddangos cydymffurfiaeth â Rheoli Cymorthdaliadau fel rhan o'u hachos busnes terfynol.

7. ASESIADAU EFFAITH

7.1. Bydd asesiad effaith integredig yn cael ei gynnal yn y cam achos busnes i asesu effaith y prosiect ar yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb ac yn erbyn Cenedlaethau'r Dyfodol.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Datganiad o Ddiddordeb – Dinas Utopia (Eithriedig)

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae cynnwys y prosiect arfaetedig hwn ar y Rhestr Wrth Gefn yn gyson â'r strategaeth ar gyfer gweddill cyllid y Cynllun Twf sydd heb ei ddyrannu a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Is-bwyllgor. Ni fydd ei gynnwys yn golygu cymeradwyo cyllid nac yn creu unrhyw ymrwymiad i'r prosiect.

Bydd unrhyw gynnig dilynol i ddyrannu cyllid yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r achos busnes perthnasol, prosesau sicrwydd a chymeradwyo, gan gynnwys gofynion cyfreithiol a diwydrwydd dyladwy priodol a chydymffurfiaeth â gofynion rheoli cymhorthdal."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Fel yr eglurir yn Rhan 5 uchod, nid yw mabwysiadu'r penderfyniad a geisir yn ymrwymo'r Fargen Twf i wariant ar hyn o bryd. Cam cyntaf o nifer yw'r Datganiad o Ddiddordeb cyn cymeradwyo Achos Busnes Terfynol a bydd y Gwasanaeth Cyllid yn darparu cymorth a dad-ansoddiad yn ôl yr angen yn ystod y broses hon os bydd y prosiect yn symud ymlaen i'r camau dilynol."